social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Effeithiau Cynnal Profion Twbercwlosis ar Filfeddygon a Phractisau yng Nghymru

Gorffennaf 2022

ISBN: 978-1-80364-715-9

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth:

www.wavehill.com
https://twitter.com/wavehilltweets

Awduron yr adroddiad:
Llorenc O'Prey, Sanna Karna, Michael Pang, Oliver Allies, ac Endaf Griffiths

Safbwyntiau'r awduron ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Dylai unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Michael Pang (michael.pang@wavehill.com)

# Diolchiadau

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymchwil hwn. Hoffem gydnabod a diolch i'r milfeddygon niferus a rhanddeiliaid eraill o bob rhan o Gymru a roddodd o'u hamser yn garedig a chynnig eu barn; i Emily Lay, Richard Griffiths, a'u cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol am eu haelioni ar ffurf amser, sylw a chyngor; i Megan Knowles-Bacon, Hannah Killeen, a'u cydweithwyr yng Nghymdeithas Milfeddygon Prydain am gynorthwyo'r ymchwil; ac i Les Eckford am ei ddoethineb, ei anogaeth a'i gymorth.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 1
1 Cyflwyniad ........ 5
2 Cefndir ........ 6
3 Twbercwlosis yng Nghymru ........ 15
4 Effeithiau Cynnal Profion TB ar Filfeddygon a Phractisau ........ 23
5 Casgliadau ........ 38
Atodiad Technegol: Methodoleg ........ 41

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil sy'n archwilio rôl ac effeithiau cynnal profion twbercwlosis (TB) ar filfeddygon a phractisau. Roedd yr ymchwil yn mynd ati i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer deall effaith profion TB yng nghyddestun yr heriau presennol sy'n wynebu'r proffesiwn milfeddygol. Nod yr ymchwil oedd cefnogi a llywio trafodaeth ar ddyfodol cynnal profion TB yng Nghymru.

## Dull Gweithredu

Roedd yr ymchwil ymgysylltu â milfeddygon a rhanddeiliaid eraill i gasglu eu barn, gan gynnwys drwy arolwg ar-lein, cyfweliadau manwl, ac mewn cyfarfod bord gron. Roedd hefyd yn mapio ac yn cyfosod tystiolaeth ehangach sy'n cynorthwyo ein dealltwriaeth o rôl ac effeithiau cynnal profion TB ar filfeddygon a phractisau.

## Cefndir

Mae milfeddygon sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm yn ganolog i hybu iechyd a lles anifeiliaid a diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae gwaith ym maes anifeiliaid fferm a'r sector milfeddygol yn gyffredinol yn cyfrannu at amrywiaeth o ganlyniadau clinigol ac economaidd cadarnhaol, yn ogystal â gweithio tuag at amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys bod ar flaen y gad o ran ymatebion i heriau parhaus a newydd o ran clefydau, a chynorthwyo ffermwyr a'r gadwyn cyflenwi bwyd yn ehangach.

Mae'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru yn wynebu heriau sy'n peri risgiau i gynaliadwyedd ac effaith gwaith ym maes anifeiliaid fferm. Mae ymadawiad y DU o'r UE, y pwysau ychwanegol a achoswyd gan bandemig COVID-19, a'r cynnydd parhaus mewn perchnogaeth anifeiliaid bach, er enghraifft, i gyd wedi gwaethygu heriau presennol y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys heriau o ran recriwtio a chadw milfeddygon sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm, yn ogystal â chyfyngu capasiti milfeddygon.

Mae'r materion hyn yn cyfyngu ar allu'r proffesiwn milfeddygol i ymateb i heriau clinigol, ac o ran hybu canlyniadau strategol yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru. Felly, mae mynd i'r afael â heriau'r gweithlu yn anghenraid strategol allweddol ar gyfer cynaliadwyedd tymor byr a thymor hir gwaith ym maes anifeiliaid fferm, ac o ran sicrhau a gwella'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'r sector amaethyddol yn ehangach, gan gynnwys mynd i'r afael â materion fel TB.

## Twbercwlosis yng Nghymru

Un maes allweddol sy’n ffocws ar gyfer gwaith gydag anifeiliaid fferm yw nodi a dileu TB. Y clefyd yw un o'r materion pwysicaf yn maes iechyd anifeiliaid yng Nghymru, gyda goblygiadau ehangach i iechyd y cyhoedd. Yn ogystal ag effeithio ar iechyd anifeiliaid, mae'r clefyd yn cael effaith gymdeithasol ac ariannol sylweddol ar ffermwyr, eu busnesau a'r gymuned wledig

ehangach. Oherwydd ei effeithiau sylweddol, mae mynd i'r afael â TB yn flaenoriaeth i amaethyddiaeth yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.

Un o elfennau strategol allweddol dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â TB yw'r Rhaglen Ddileu. Mae mesurau fel gwyliadwriaeth fanwl drwy brofion TB wedi arwain at ostyngiad graddol yn nifer yr achosion o TB ymhlith buchesi Cymru ers cyflwyno'r rhaglen yn 2008. Mae achosion dynol o TB hefyd wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Er hyn, mae'r clefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylweddol o ran iechyd y cyhoedd, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae'r rhaglen yn golygu bod galw sylweddol ar gapasiti milfeddygon, gydag amcangyfrif o 2.1 miliwn o brofion croen yn cael eu cynnal yn 2020. Mae profion TB rheolaidd yn arf allweddol wrth fonitro a nodi clefydau'n gynnar, a'r prif ddull profi yw'r prawf croen twbercwlin. Yn hanesyddol, cynhaliwyd y profion gan filfeddygon sy'n gweithio naill ai i asiantaethau llywodraethol (gan gynnwys APHA) neu gan filfeddygon preifat sy'n gweithio yn rhinwedd eu swydd fel Milfeddygon Swyddogol. Gall Swyddogion Iechyd Anifeiliaid, a elwir hefyd yn dechnegwyr neu'n 'brofwyr lleyg', sy'n gweithio o fewn APHA hefyd gynnal profion.

## Effeithiau Cynnal Profion TB ar Filfeddygon a Phractisau

Y tu hwnt i'r canlyniadau pwysig clinigol sydd i anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd drwy'r Rhaglen Ddileu, mae cynnal profion TB ohono'i hun yn peri amrywiaeth o effeithiau ehangach i filfeddygon a phractisau. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol y profion ar gapasiti milfeddygon, er enghraifft, a'r cyfraniad economaidd y gall ei wneud wrth gynorthwyo practisau a gwasanaethau eraill, fel darpariaeth frys y tu allan i oriau. At hynny, ceir effeithiau clinigol ehangach gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymwneud â ffermwyr yn fwy cyffredinol wrth gynnal y profion.

### Recriwtio

Mewn ymgynghoriad â milfeddygon fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, dywedodd 72 y cant o filfeddygon eu bod yn aml iawn neu bob amser yn wynebu heriau o ran recriwtio staff ym maes anifeiliaid fferm. Roedd llawer yn teimlo bod cynnal profion TB ynddo'i hun yn sbardun allweddol yn yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran recriwtio, gydag 83 y cant o ymatebwyr yn awgrymu ei fod yn cael effeithiau negyddol neu negyddol iawn. I rai, roedd yr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio yn arbennig o ddifrifol, gan beri risgiau i hyfywedd y busnes.

### Llwyth gwaith

Yn ogystal â heriau recriwtio, roedd milfeddygon yn tueddu i nodi cynnydd yn y llwyth gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth archwilio rôl ac effaith cynnal profion TB, teimlwyd yn gyffredinol bod cynnal profion TB yn cael effaith negyddol sylweddol ar lwyth gwaith milfeddygon. I lawer, roedd profion TB yn ymrwymiad sylweddol o ran amser. Mewn sgyrsiau mwy agored, roedd rhai milfeddygon yn pryderu mai ychydig iawn o gapasiti dros ben oedd yn y system, a oedd yn peri amrywiaeth o risgiau gan gynnwys ar gyfer practisau, eu

cleientiaid, ac wrth ymateb i heriau newydd o ran clefydau. Ar y llaw arall, i rai practisau llai, roedd yr incwm a gynhyrchwyd o gynnal profion TB o gymorth i gynnal tîm fferm ar raddfa briodol a oedd yn creu digon o gapasiti ar gyfer llwyth gwaith mwy cytbwys.

## Boddhad Swydd

Mynegodd milfeddygon bryderon am oblygiadau cynnal profion TB ar foddhad swydd. Gyda'i gilydd, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnal profion naill ai'n annymunol neu'n annymunol iawn. Roedd y rhai a oedd heb farn neu'n fwy cadarnhaol yn tueddu i ddweud eu bod yn mwynhau'r cyfle i fynd i fferm. Roedd rhai uwch filfeddygon yn pryderu am eu cydweithwyr iau, lle'r oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig peidio â'u gorlwytho â gormod o brofion. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu ymchwil ehangach a wnaeth ganfod tystiolaeth sy'n awgrymu y gall diffyg boddhad swydd, gan gynnwys gyda lefelau uchel o gynnal profion rheolaidd, arwain at filfeddygon yn symud oddi wrth faes anifeiliaid fferm.

## Cadw Milfeddygon

Mewn sgyrsiau mwy agored, mynegodd milfeddygon bryder ynghylch sut gallai diffyg boddhad swydd effeithio ar gadw milfeddygon. Roedd hyn yn tueddu i gael ei fynegi’n fwy fel canfyddiad o risg gyffredinol ym maes anifeiliaid fferm nag fel unrhyw achos penodol. Un her allweddol y mae rhai practisau yn ei hwynebu, fodd bynnag, oedd y gostyngiad yng nghyfradd gadw cydweithwyr rhyngwladol, gan gynnwys rhai o'r UE. Roedd hyn yn codi pryderon ynghylch cadw staff a rôl ac effaith cynnal profion TB, gan fod cydweithwyr rhyngwladol yn aml yn canolbwyntio ar gyflawni gwaith mwy rheolaidd gan gynnwys cynnal profion.

## Effeithiau Economaidd

Ar gyfartaledd, dywedodd milfeddygon fod profion yn cynrychioli 24.8 y cant o'r incwm ar gyfer practisau anifeiliaid fferm. Roedd y rhai a oedd yn gwneud gwaith cymysg yn nodi 6.6 y cant o incwm y practis ar gyfartaledd. Mewn sgyrsiau mwy agored, roedd incwm cynnal profion yn cael ei ddisgrifio’n amrywiol fel 'bara menyn'. O'r safbwynt hwn, roedd incwm cynnal profion yn elfen gyson a oedd yn cael ei gwerthfawrogi, gan gynnwys ar gyfer cynllunio tymor byr a thymor canolig.

Roedd safbwyntiau croes ar bwysigrwydd cymharol incwm cynnal profion ar gyfer hyfywedd gwaith arall ym maes anifeiliaid fferm. Roedd rhai o'r farn bod incwm cynnal profion yn sicrhau bod y timau fferm ar ddigon o raddfa i gefnogi gwasanaethau eraill fel darpariaeth frys y tu allan i oriau. Teimlai eraill fod yr amser a dreuliwyd ar gynnal profion yn arwain at gostau cyfle sylweddol, gan gyfyngu neu fygu cyfleoedd i wneud gwaith arall, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ataliol.

Wrth archwilio'r mater hwn ymhellach, yn nhermau economaidd cyfanredol, awgrymodd yr ymatebion fod TB yn waith lle mae’r elw’n isel. O gymharu'r amser a dreulir a'r incwm a gynhyrchir, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod milfeddygon yn treulio mwy o amser yn

cynnal profion nag y maent yn ei gynhyrchu mewn incwm. Mewn sgyrsiau mwy agored, fodd bynnag, teimlwyd bod amrywiaeth sylweddol yn economeg cynnal profion. Mynegwyd yn aml fod profi buchesi mwy yn gyflymach ac yn haws na phrofi buchesi llai, a oedd yn eu gwneud yn fwy gwerthfawr na buchesi llai. Nododd eraill eu bod yn teimlo bod cynnal profion ar unedau llai yn fwy tebygol o greu gwaith pellach, a oedd yn cynyddu’r gwerth economaidd sydd i ymwneud â hwy.

## Effeithiau Clinigol

Y tu hwnt i fanteision clinigol cynnal profion TB ar iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, ceir effeithiau clinigol posibl eraill. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau sy'n deillio o gapasiti milfeddygon wedi’i gefnogi gan incwm cynnal profion, y gwasanaethau y gallant eu cynnig, a'r gwaith clinigol ehangach y mae milfeddygon yn ymgymryd ag ef o ganlyniad i hynny.

Cymysg oedd y farn am bwysigrwydd cymharol cynnal profion TB ar ganlyniadau clinigol ehangach. Roedd y rhai a oedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol yn tueddu i nodi pwysigrwydd y cyfle i fod ar y fferm ac i archwilio gwartheg mewn ffordd oddefol mewn perthynas â materion neu glefydau hysbysadwy eraill wrth gynnal y profion. Gallai hyn arwain at sgyrsiau a gwaith clinigol arall. Roedd cynnal profion hefyd yn cynnig cyfleoedd i archwilio agweddau eraill yn ymwneud â TB, gan gynnwys mesurau bioddiogelwch, lleihau clefydau, polisi prynu, cyflwyno stoc, a mesurau cwarantin.

Roedd y rhai a oedd yn fwy petrusgar ynglŷn â gwerth cynnal profion yn tueddu i nodi bod cyfleoedd eraill mwy gwerthfawr i archwilio materion clinigol ehangach, gan gynnwys ar ffermydd sy'n llai tebygol o fod mewn cyswllt rheolaidd â'u milfeddyg. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno mentrau, gwasanaethau a chymorth eraill, fel hyrwyddwyr presgripsiynu, yn ogystal â gwaith sicrwydd fferm.

Yn bwysig, wrth feddwl am effeithiau clinigol ehangach, roedd canfyddiad cyffredinol bod llwyth gwaith cynnal profion yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygiad proffesiynol. Yn gyffredinol, roedd 64 y cant yn awgrymu mai ychydig yn unig mae cynnal profion yn cefnogi arloesedd, neu nad yw’n gwneud hynny o gwbl. Roedd pryderon hefyd ynghylch goblygiadau negyddol llwythi gwaith uchel i ddatblygiad proffesiynol a datblygiad gyrfa yn ehangach. O'r safbwyntiau hyn, gallai cynnal profion TB danseilio effeithiolrwydd tymor hwy y proffesiwn o ran mynd i'r afael â heriau newydd, yn ogystal â gwneud gwaith ym maes anifeiliaid fferm yn llai deniadol.

## Effeithiau Cyffredinol

Mae pwysau'r dystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau negyddol cynnal profion TB (fel y mae wedi’i drefnu ar hyn o bryd) yn gwaethygu'r risgiau sy'n wynebu'r proffesiwn. Mae'r rhain yn cynnwys rôl cynnal profion wrth lunio tueddiadau o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal â thanseilio lefelau cyffredinol y capasiti i gyflawni ymrwymiadau presennol.

## Casgliadau

Roedd consensws ynghylch gwerth a phwysigrwydd archwilio sut y gellid diwygio profion TB er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r goblygiadau negyddol tra'n cadw'r manteision, gan gynnwys canlyniadau economaidd a chanlyniadau clinigol ehangach. Dyma hefyd oedd barn grwpiau rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys cynrychiolwyr byd ffermio.

O ran atebion posibl, roedd consensws hefyd ynghylch y rôl ehangach bosibl y gallai gweithwyr para-broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ei chwarae wrth leddfu rhai o'r heriau tymor byr sy'n gysylltiedig â chapasiti. Pan ofynnwyd i ba raddau y gallai gweithwyr para-broffesiynol gynnal profion, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylent wneud hynny'n aml iawn neu bob amser. Ar y llaw arall, roedd 22 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai milfeddygon gynnal profion yn aml iawn neu bob amser.

O ran effeithiau posibl dibynnu mwy ar weithwyr para-broffesiynol, cyfeiriodd milfeddygon at ystod eang o fanteision posibl. Roedd y rhain yn cynnwys rhyddhau amser i'w neilltuo i waith arall mwy ystyrlon, fel rhoi mwy o sylw i atal a rheoli achosion o TB.

Er bod consensws, cyfeiriodd ymatebwyr at amrywiaeth o ystyriaethau neu gafeatau. Roeddent yn cyfeirio, er enghraifft, at bwysigrwydd ystyried goblygiadau defnyddio gweithwyr para-broffesiynol ar gydymffurfiaeth, goruchwyliaeth a gwrthdaro buddiannau. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn bwysig ystyried y lefelau o arbenigedd sy'n ofynnol gan weithwyr para-broffesiynol, sut y byddent yn cael eu hyfforddi, a phwy fyddai'n gyfrifol am achredu.

Roedd pryderon hefyd ynghylch goblygiadau economaidd posibl defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol. Roedd rhai o'r farn y byddai goblygiadau o ran cost i recriwtio, hyfforddi a goruchwylio gweithwyr para-broffesiynol, er enghraifft, ac roeddent yn awyddus i nodi na fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at arbedion costau. Roedd eraill yn pryderu efallai na fyddant yn gallu cyflogi gweithiwr para-broffesiynol heb beryglu hyfywedd swydd milfeddyg yn y tîm fferm. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos practisau annibynnol, llai.

Yn gyffredinol, roedd llawer o filfeddygon yn teimlo bod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti tymor byr a heriau recriwtio a chadw staff tymor hwy yn drech na'r risgiau. Teimlwyd bod angen ystyried yn ofalus sut y mae eu defnyddio, gan gynnwys materion yn ymwneud â llywodraethu, cydymffurfio, hyfforddiant, a'r union gyfrifoldebau y gellid eu rhoi i weithwyr para-broffesiynol.

# 2 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil sy'n archwilio rôl ac effeithiau cynnal profion TB ar filfeddygon a Phractisau.

## Nodau'r Ymchwil

Aeth y gwaith ymchwil ati i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer deall effaith cynnal profion TB yng nghyd-destun yr heriau presennol sy'n wynebu'r proffesiwn milfeddygol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau difrifol o ran capasiti, a'r rhai sy'n ymwneud â recriwtio a chadw milfeddygon ym maes anifeiliaid fferm. Yn y pen draw, nod yr ymchwil oedd llywio trafodaeth rhwng y proffesiwn milfeddygol, y gymuned ffermio, a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chreu syniadau am ddyfodol cynnal profion TB yng Nghymru.

## Dull Gweithredu

Wrth weithio tuag at yr amcanion hyn, defnyddiodd yr ymchwil ystod o ddata i gynorthwyo ein dealltwriaeth. Roedd hyn yn cynnwys mapio a chyfuno'r sylfaen dystiolaeth er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn adeiladu ar ymchwil a phrofiad presennol. At hynny, roedd yr ymchwil yn cynnwys ymgynghori â milfeddygon a phractisau ledled Cymru drwy arolwg arlein (n= 55), cyfweliadau manwl (n= 9), a chyfarfod bord gron (cyfranogwyr n= 6). Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ehangach hefyd, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned ffermio a Darparwyr Cyflenwi Milfeddygol (n= 3).

I gael mwy o fanylion am ddull gweithredu'r gwaith ymchwil hwn, gweler yr Atodiad Technegol: Methodoleg.

## Sut i Ddod o Hyd i'ch Ffordd drwy'r Ddogfen Hon

Er mwyn cyfleu canfyddiadau'r ymchwil ac ystyried eu goblygiadau, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi crynodeb o'r cyd-destun ehangach sy'n gysylltiedig â'r ymchwil, gan gynnwys natur a chyfansoddiad gwaith ym maes anifeiliaid fferm yng Nghymru, a'r heriau sy'n wynebu'r proffesiwn milfeddygol.
- Mae Pennod 3 yn crynhoi TB yng Nghymru, yr heriau y mae'n eu cyflwyno, a ffocws a threfniadaeth y Rhaglen i Ddileu TB.
- Mae Pennod 4 yn archwilio prif ganfyddiadau'r ymchwil, gan gynnwys barn a phrofiadau milfeddygon a phractisau mewn perthynas â chynnal profion TB.
- Yn olaf, mae Pennod 5 yn cyflwyno'r casgliadau a'r goblygiadau sy'n deillio o'r ymchwil ar gyfer cynnal profion TB yng Nghymru.

# 3 Cefndir

Dyma gyflwyno crynodeb o'r cyd-destun ehangach sy'n gysylltiedig â'r ymchwil. Gan ddefnyddio tystiolaeth a data sy'n bodoli eisoes, mae'n archwilio cyfansoddiad a ffocws y sector milfeddygol yng Nghymru, yn ogystal â thueddiadau sy'n llywio gwaith ym maes anifeiliaid fferm. Mae'n mynd ymlaen i archwilio natur a graddau rhai o'r heriau a'r risgiau sy'n

wynebu milfeddygon a phractisau, gan gynnwys o ran cyflawni gwaith ym maes anifeiliaid fferm.

## Y Sector Milfeddygol yng Nghymru

Mae'r sector milfeddygol yng Nghymru yn cynnwys 2,691 o filfeddygon yn ogystal â 1,301 o nyrsys milfeddygol sydd wedi'u cofrestru i ymarfer[1]. Mae milfeddygon gweithredol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys mewn practisau preifat ac asiantaethau llywodraethol.

Mae gwaith ym maes anifeiliaid bach yn ganolbwynt sylweddol i'r sector milfeddygol yng Nghymru ac ar draws y DU. Er enghraifft, yn ôl data o'r DU yn 2019, roedd tua 52.6 y cant o filfeddygon yn canolbwyntio'n bennaf ar waith ym maes anifeiliaid bach. Roedd 11.7 y cant arall yn ymwneud yn bennaf â gwaith cymysg, gyda 3.2 y cant yn canolbwyntio ar waith ym maes anifeiliaid fferm. Mae ffocws milfeddygon fel arall yn cynnwys ystod amrywiol o weithgareddau eraill, gan gynnwys gwaith ym maes ceffylau (5.5 y cant), atgyfeirio ac ymgynghoriaeth (6.4 y cant), a gweithio ar ran yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA, 1.5 y cant)[2].

### Gwaith ym maes Anifeiliaid Fferm

Mae milfeddygon sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm, naill ai drwy waith cymysg neu'n gyfan gwbl, yn ganolog i hybu iechyd a lles anifeiliaid a diogelu iechyd y cyhoedd. Er cyfran fach o ffocws cyffredinol y proffesiwn milfeddygol yng Nghymru yw gwaith ym maes anifeiliaid fferm, mae rôl ac effaith y gwaith hwn yn sylweddol. O ran nifer yr anifeiliaid sydd dan eu gofal ac arwyddocâd eu gwaith i'r cyhoedd, mae milfeddygon sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm yn chwarae rhan hanfodol yng nghymdeithas Cymru.

Drwy waith ym maes anifeiliaid fferm, mae milfeddygon sy'n gweithio mewn practisau preifat yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, cymorth a chyngor i ffermwyr. Gall ffocws a dwyster y cymorth amrywio, gan gynnwys trin anifail sâl unigol, neu'n fwy cyffredinol wrth ganolbwyntio ar atal clefydau ac iechyd y boblogaeth drwy gyngor ac arweiniad ar frechu, llety a hwsmonaeth. Gall gynnwys monitro, goruchwylio ac adrodd ar glefydau hysbysadwy drwy ddiagnosteg fel cymryd gwaed a chynnal archwiliadau uwchsain neu belydr-x, yn ogystal â chynnal profion TB arferol.

Yn fwy cyffredinol, mae milfeddygon sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm hefyd yn cefnogi'r gadwyn cyflenwi bwyd. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd i fyd masnach ynghylch chynhyrchu a chynhyrchion anifeiliaid drwy ddarparu tystysgrifau fferm a Thystysgrifau Iechyd

[1] Ffeithiau a Ffigurau gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon (2019)

[2] The 2019 Survey of the Veterinary Profession, Coleg Brenhinol y Milfeddygon (2019): Noder: Rhoi syniad yn unig a wna'r ffigurau hyn, yn hytrach na chyfrif pendant, o union ffocws milfeddygon yng Nghymru.

i Allforio. At hynny, mae Milfeddygon Swyddogol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal gwiriadau hylendid cig i sicrhau na fu unrhyw faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid a gyflwynir i'w lladd, gan gynnwys o ran TB.

Mae milfeddygon hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bioddiogelwch, a all beri risgiau sylweddol i ffermwyr da byw. At hynny, maent yn ymwneud fwyfwy â chynorthwyo o ran trosglwyddo gwybodaeth a newid ymddygiad ymhlith ffermwyr drwy gyfathrebu tystiolaeth wyddonol a strategaethau ymarferol ar gyfer gwella iechyd, lles a chynhyrchiant anifeiliaid.

Er bod pob milfeddyg yn gofalu am anifeiliaid sydd dan eu gofal, mae gan y rhai sy'n gweithio gydag anifeiliaid fferm berthynas weithredol fwy estynedig a chymhleth ag ystod ehangach o randdeiliaid. Wrth ddefnyddio eu harbenigedd mewn gofalu am anifeiliaid fferm a'u trin, er enghraifft, mae milfeddygon yn gweithredu fel cyfryngwyr allweddol rhwng anifeiliaid a ffermwyr, rhwng ffermwyr a'r llywodraeth, a rhwng amaethyddiaeth, y diwydiant bwyd, a defnyddwyr.

Mae natur ganolog eu rôl o ran cynhyrchu bwyd ac iechyd anifeiliaid hefyd yn golygu bod ar filfeddygon ofynion cymhleth a newidiol. Mae milfeddygon ar flaen y gad mewn ymatebion i heriau clefydau parhaus a newydd, er enghraifft, fel TB, mastitis gwartheg, y tafod glas, a mathau pathogenig iawn o ffliw adar, ymhlith eraill. Maent hefyd ar flaen y gad mewn ymatebion i risgiau iechyd y cyhoedd a achosir gan TB, E. coli, campylobacter, BSE, a milheintiau eraill a gludir gan fwyd a dŵr.

Mae gwaith ym maes anifeiliaid fferm a'r sector milfeddygol yn gyffredinol yn cynorthwyo amrywiaeth o ganlyniadau clinigol ac economaidd cadarnhaol, yn ogystal â gweithio tuag at amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae'r ystod amrywiol o ganlyniadau a gefnogir gan filfeddygon yn cynnwys diogelu iechyd a lles anifeiliaid, yr amgylchedd naturiol, bioamrywiaeth, rheoli rhywogaethau goresgynnol, newid yn yr hinsawdd, diogelwch bwyd, ymchwil a datblygu, a [mynd i'r afael ag] ymwrthedd gwrthficrobaidd[3].

## Tueddiadau sy'n Llywio Gwaith ym Maes Anifeiliaid Fferm

Mae'r cyd-destun ehangach y mae gwaith ym maes anifeiliaid fferm yn gweithredu ynddo yn trawsnewid. Mae'r berthynas sy'n cysylltu milfeddygon â ffermwyr, y diwydiant bwyd, defnyddwyr a'r llywodraeth eu hunain yn esblygu'n barhaus. Mae'r rhain a sbardunau eraill, gan gynnwys newidiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol, rheoleiddiol ac economaidd, wedi dylanwadu ar newidiadau yn amcanion, graddau a threfniadaeth gwaith ym maes anifeiliaid fferm yng Nghymru.

---

[3] Taking charge of our future: A vision for the veterinary profession for 2030, Bwrdd Prosiect Vet Futures (Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Coleg Brenhinol y Milfeddygon), (2015)

## Arallgyfeirio ac Arbenigo

Dros y 30 mlynedd diwethaf, er enghraifft, bu arallgyfeirio ac arbenigo sylweddol yn y sector milfeddygol. Mae hyn yn cynnwys newid yn sylw milfeddygon oddi wrth waith cymysg (sy'n cynnwys maes anifeiliaid fferm) tuag at waith ym maes anifeiliaid bach[4]. Rhwng 2010 a 2019 ledled y DU, er enghraifft, cynyddodd nifer y milfeddygon hynny sy'n gweithio'n bennaf ym maes anifeiliaid bach o 45.8 y cant i 52.6 y cant. Yn gyfatebol, gostyngodd nifer y rhai a oedd yn bennaf yn gwneud gwaith cymysg o 22.1 y cant i 11.7 y cant dros yr un cyfnod[5].

Mae effeithiau mwy o arallgyfeirio ac arbenigo ar waith ym maes anifeiliaid fferm yn gymhleth ac amlweddog. Bu pryderon, er enghraifft, ynghylch yr effeithiau andwyol y gallai'r cynnydd yn y ffocws ar anifeiliaid bach eu cael ar gynaliadwyedd hirdymor gwaith ym maes anifeiliaid fferm. Mae gwreiddiau dwfn i'r pryderon hyn. Mewn ymateb i ymchwiliadau clwy'r traed a'r genau yn 2001, er enghraifft, adroddodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin (EFRACom):

> *'Although there are sufficient vets in total, there are concerns about whether there are enough large animal practitioners* [those mainly engaged in farm animal practice]. *The economics of farming is leading to less use of veterinary services and is further reducing the attractiveness of large animal practice. At the same time the government's animal health and welfare and veterinary surveillance strategies appear to require a greater on-farm presence of veterinary surgeons.'*[6]

Gyda'i gilydd, mae mwy o arallgyfeirio ac arbenigo wedi arwain at newid ffocws y proffesiwn oddi wrth ddarparu gwaith ym maes anifeiliaid fferm. Mae hyn yn cynnwys lleihau gallu cyffredinol y sector i fynd i'r afael â heriau clinigol sy'n wynebu cymunedau ffermio, yn ogystal ag ychwanegu pwysau chwyddiant i ddenu milfeddygon sydd ar gael i weithio ym maes anifeiliaid fferm.

## Cyfuno

Yn ogystal â mwy o arallgyfeirio ac arbenigo, mae practisau yn y sector milfeddygol hefyd wedi bod yn cyfuno'n raddol. Yn hanesyddol, roedd y model busnes pennaf ymhlith practisau yn tueddu i fod yn fach, yn annibynnol ac mewn perchnogaeth leol. Bu cynnydd graddol mewn modelau busnes sy'n ceisio mwy o gyfuno a chanoli rhai swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys ehangu corfforaethau, cadwyni a mentrau ar y cyd sy'n gweithredu yn y sector. Mae mwy o gyfuno yng Nghymru yn adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol ehangach, gan gynnwys ledled Ewrop a'r Unol Daleithiau, yn ogystal ag adlewyrchu patrymau sy'n newid o ran buddsoddi a threfniadaeth busnes.

[4] Er enghraifft, Buzzeo et al. (2014)
[5] The 2019 Survey of the Veterinary Profession, Coleg Brenhinol y Milfeddygon (2019)
[6] Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin (2003)

## Y Galw am Waith ym Maes Anifeiliaid Fferm

Mae newidiadau strwythurol sy'n dylanwadu ar waith ym maes anifeiliaid fferm, gan gynnwys arallgyfeirio, arbenigo ac atgyfnerthu ymddangosiadol yn y proffesiwn, wedi'u priodoli'n amrywiol i yrwyr economaidd sy'n llywio’r maes. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiadau yn y galw am wasanaethau. Mae'r galw am waith ym maes anifeiliaid fferm yn cael ei lywio gan amrywiaeth o gyfranogwyr, gan gynnwys y llywodraeth a'r diwydiant amaethyddol. Yn fwy na hynny, mae amrywiaeth o ffactorau ac ystyriaethau yn dylanwadu arno, gan gynnwys darparu nwyddau cyhoeddus a phreifat.

Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth gadarn amlwg i gefnogi ein dealltwriaeth o faint yr amrywiadau yn y galw am waith ym maes anifeiliaid fferm, gan gynnwys yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gwaith ym maes anifeiliaid fferm yn gymhleth ac amrywiol. Mae cwsmeriaid cyhoeddus a phreifat i’r gwaith, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau milfeddygol cyhoeddus a phreifat. Mae milfeddygon preifat yn diwallu anghenion cwsmeriaid preifat a'r llywodraeth. Mae'r Llywodraeth, yn ei thro, yn gweithredu fel contractwr ar gyfer rhai gwasanaethau milfeddygol, yn enwedig o ran darparu nwyddau cyhoeddus. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran mapio a deall y galw cyfanredol yn gywir a sut y gallai newidiadau mewn polisi iechyd a lles anifeiliaid effeithio ar filfeddygon a phractisau.

O ran y galw cyhoeddus am wasanaethau milfeddygol, yn hanesyddol, mae'r llywodraeth wedi gweithredu fel noddwr sylweddol i'r proffesiwn milfeddygol ac, i raddau amrywiol, i'r diwydiant amaethyddol. Felly, mae'r Llywodraeth wedi cael dylanwad sylweddol ar y galw am wasanaethau milfeddygol cyhoeddus a phreifat sy'n cefnogi cymunedau ffermio. Yn ogystal, drwy ei rôl fel cleient uniongyrchol a'i nawdd i'r diwydiant amaethyddol, mae'r llywodraeth hefyd wedi cynhyrchu llawer o'r galw tymor byr a thymor canolig angenrheidiol sydd ei angen i gynnal elfennau allweddol o waith ym maes anifeiliaid fferm.

Ar hyn o bryd, mae'r galw cyhoeddus am waith ym maes anifeiliaid fferm yn cael ei bennu i raddau helaeth gan bolisi a rhaglenni'r llywodraeth. Caiff hyn ei ddylanwadu gan y blaenoriaethau a'r ymrwymiadau sydd ar waith o ran rheoli clefydau ac iechyd y cyhoedd. At hynny, caiff ei sefydlu drwy ddeddfwriaeth a rheoleiddio, sy'n llywio gweithgareddau a chyfrifoldebau milfeddygon, gan gynnwys mewn perthynas â sicrwydd ac ardystio cynhyrchu a chynhyrchion anifeiliaid. Caiff cyfeiriad strategol dull gweithredu'r llywodraeth ei ddisgrifio yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru 2014-24. Mae'r Fframwaith yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid ac yn ceisio gweithio tuag at bum canlyniad strategol. Mae'r rhain yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus a pharhaol mewn safonau iechyd a lles anifeiliaid, tra'n diogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi a'r amgylchedd.

Nid oes dealltwriaeth dda o union ddibyniaeth practisau milfeddygol ar y galw am nwyddau cyhoeddus yng Nghymru. Ceir tystiolaeth anecdotaidd yn bennaf i awgrymu bod practisau'n agored i amrywiadau yn y galw am nwyddau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai a achosir gan newidiadau i bolisi a rhaglennu. Roedd dileu rhaglen brofi brwselosis yn 2008, er enghraifft, wedi effeithio'n negyddol ar bractisau, yn enwedig yn yr Alban a Gogledd Cymru, er ei bod yn cyfrif am gyfran gymharol fach yn unig o gyfanswm y cyllid ar gyfer dileu TB[7]. Ar y pryd, cafodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Llywodraeth y DU ei beirniadu am y diffyg rhybudd a roddwyd am y penderfyniad i dynnu cyllid yn ôl. Mae hyn yn awgrymu y gall amrywiadau yn y galw am nwyddau cyhoeddus fod â goblygiadau ariannol sylweddol i filfeddygon a phractisau. Gall yr effeithiau hyn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol, gan gynnwys nifer yr achosion hanesyddol a phresennol o glefydau penodol a chyfansoddiad a threfniadaeth y ddarpariaeth filfeddygol leol.

Mae amrywiadau yn y galw preifat gan fyd ffermio a diwydiant hefyd yn dylanwadu ar waith ym maes anifeiliaid fferm. Yn ei dro, daw hyn o dan ddylanwad amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys grymoedd ehangach y farchnad a rhagolygon y diwydiant da byw yn ei gyfanrwydd. Mae'r amgylchedd ariannol y mae ffermwyr da byw yn gweithredu ynddo yn dangos amrywiadau tymhorol mawr sy'n deillio, i raddau helaeth, o ddylanwad grymoedd y farchnad a chyfraddau cyfnewid arian cyfred ar gostau mewnbwn a phrisiau cynnyrch. Gall yr amrywiadau hyn hefyd effeithio ar y galw am waith ym maes anifeiliaid fferm; fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth glir i ba raddau.

Mae diwydiant da byw Cymru yn wynebu cystadleuaeth gref nid yn unig o wledydd y DU a'r UE ond hefyd, yn gynyddol, o farchnadoedd byd-eang. Mae'n parhau i addasu'n strwythurol i newidiadau mewn mynediad i'r farchnad a'r amgylchedd rheoleiddio cysylltiedig o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr UE. Ar yr un pryd, mae cynhyrchwyr anifeiliaid yn wynebu rheoliadau a safonau amgylcheddol, lles a sicrwydd bwyd cynyddol uwch, wedi'u gyrru'n rhannol gan ddisgwyliadau uwch y defnyddwyr.

Mae newidiadau strwythurol mewn cynhyrchu anifeiliaid ar ffermydd Cymru hefyd wedi dylanwadu ar y galw preifat am wasanaethau milfeddygol. Mae'r sector amaethyddol hefyd wedi bod gweld ffermydd a busnesau'n cyfuno, sydd wedi lleihau cyfanswm nifer y ffermydd yng Nghymru. Yn fwy na hynny, bu gostyngiadau yng nghyfanswm nifer yr anifeiliaid a gedwir ar ffermydd. Rhwng 2005 a 2019, er enghraifft, bu gostyngiad o 14.7 y cant yn nifer y lloi a'r gwartheg, ac 17.1 y cant mewn defaid ac ŵyn[8].

Gall ffocws a graddau'r cymorth economaidd a gynigir i ffermwyr da byw hefyd ddylanwadu ar y galw am wasanaethau milfeddygol. Yn hanesyddol, mae cymorth economaidd i ffermwyr wedi'i gydgysylltu drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r Cynllun Ffermio

[7] The changing role of veterinary expertise in the food chain, Enticott et al. (2011) R. Soc. B, Cyfrol 366, Rhifyn 1573, tt. 1955-1965, 2011.

[8] Arolwg o'r Cyfrifiad Amaethyddol a Garddwrol, Llywodraeth Cymru (2019) Noder: Y data diweddaraf sydd ar gael er mwyn gwneud cymariaethau hirdymor.

Cynaliadwy, olynydd arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r PAC, yn ceisio cefnogi mwy o ddiogelu ac adfer yr amgylchedd, datblygu cyfalaf naturiol, ac annog darparu gwasanaethau ecosystemau. Mae darpariaethau hefyd sy'n ceisio gwella lles anifeiliaid drwy wobrwyo'r rhai sy'n cyflawni safonau sy'n uwch na'r gofynion statudol sylfaenol.

---

Caiff y galw ei lywio hefyd gan ddatblygiadau ehangach yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffordd orau i gynorthwyo iechyd a lles anifeiliaid. Mae heriau fel ymwrthedd gwrthficrobaidd yn ei gwneud yn ofynnol i filfeddygon a ffermwyr feddwl yn wahanol am y ffordd y maent yn ymdrin ag iechyd anifeiliaid. Mae hyn wedi arwain yn rhannol at roi mwy o bwyslais ar feddygaeth ataliol ym maes anifeiliaid fferm. Mae hyn wedi ailddiffinio ac ehangu statws proffesiynol milfeddygon o fod yn darparu gwasanaethau adfer diriaethol tuag at ddarparu mwy o gyngor manylach ar atal clefydau. Mae'r newid ffocws hwn wedi cyflwyno amrywiaeth o heriau i filfeddygon yn ogystal â chyfleoedd, gan gynnwys symud tuag at fodelau busnes sy'n fwy seiliedig ar gynghori ac sy'n llai dibynnol ar werthu meddyginiaethau i ategu eu hincwm.

### Dyfodol Gwaith ym Maes Anifeiliaid Fferm

Gyda'i gilydd, mae hyfywedd a chynaliadwyedd economaidd gwaith ym maes anifeiliaid fferm, a, thrwy estyniad, gwasanaethau fel darpariaeth frys y tu allan i oriau, yn cael eu dylanwadu gan ystod o ffactorau a thueddiadau gan gynnwys y rhai a ddisgrifir uchod. Mae economeg gwaith ym maes anifeiliaid fferm yn gyd-destunol iawn ac yn cael ei llywio gan yr amgylchedd, daearyddiaeth, hanes a thraddodiad. Ymhlith eraill, mae'r rhain yn cynnwys trefniadaeth a graddau'r ddarpariaeth filfeddygol leol, y mathau o ffermydd a'r cymunedau ffermio y maent yn eu gwasanaethu, baich clefydau yr ardal, a'r cyd-destun rheoleiddiol a macroeconomaidd ehangach sy'n llywio ymatebion lleol.

Mae'r tueddiadau cyffredin wedi creu amgylchedd deinamig sy'n golygu bod gofyn i ffermwyr a milfeddygon addasu. Mae strwythur ac arferion ffermio, a, thrwy estyniad, y proffesiwn milfeddygol, yn debygol o newid ymhellach. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau i bractisau milfeddygol a budd ehangach y cyhoedd yn iechyd a lles anifeiliaid cynhyrchu. At hynny, mae iddo oblygiadau o ran llywodraethu gwasanaethau milfeddygol.

## Heriau sy'n Wynebu Gwaith ym Maes Anifeiliaid Fferm

Mae'r tueddiadau hyn wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r sector milfeddygol, gan gynnwys ymateb yn llwyddiannus i'r cynnydd ym mherchnogaeth anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, maent hefyd wedi gwaethygu heriau presennol neu heriau newydd, yn enwedig o ran recriwtio a chadw milfeddygon ym maes anifeiliaid fferm. Mae ymadawiad y DU o'r UE, y pwysau ychwanegol a achoswyd gan bandemig COVID-19, a'r cynnydd parhaus mewn perchnogaeth anifeiliaid bach, er enghraifft, oll wedi gwaethygu'r heriau presennol sy'n wynebu gwaith ym maes anifeiliaid fferm.

Mae tueddiadau a phryderon ynghylch prinder milfeddygon anifeiliaid fferm wedi hen ennill eu plwyf. Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â'r prinder hwn i raddau helaeth drwy ddenu gweithwyr rhyngwladol i weithio yn y DU. Mae milfeddygon sydd wedi cymhwyso dramor, gan gynnwys yn yr UE, yn gwneud cyfraniad sylweddol i waith ym maes anifeiliaid fferm yng Nghymru a'r DU.  Dywedodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain, cyn Brexit yn 2014, fod 43 y cant o filfeddygon newydd yn y DU wedi'u hyfforddi yn ysgolion milfeddygol yr UE[9]. Yn ôl data a gyhoeddwyd yn 2018, roedd cymaint ag 80 y cant o filfeddygon sy'n gweithio yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru wedi'u hyfforddi dramor[10].

Mae sawl ffactor yn esbonio'r ddibyniaeth ar weithwyr rhyngwladol i ddarparu rhai agweddau ar waith ym maes anifeiliaid fferm. Mae rhai wedi dadlau bod hyn wedi'i ysgogi gan brinder milfeddygon a hyfforddwyd yn y DU i ymgymryd â gwaith mwy rheolaidd fel cynnal profion TB yn ogystal â gwaith ardystio ac arolygu. Mae eraill wedi awgrymu bod hyn hefyd wedi'i ysgogi gan filfeddygon a hyfforddwyd yn y DU sy'n symud i ffwrdd o feysydd cymysg neu faes anifeiliaid fferm, ac yn hytrach yn edrych am gyfleoedd i weithio gydag anifeiliaid bach[11].

Wrth i'r DU adael yr UE, bu gostyngiad amlwg yn nifer y gweithwyr rhyngwladol sy'n dod i weithio yn y DU. Mae ffigurau o Gofrestr Coleg Brenhinol y Milfeddygon yn dangos gostyngiad amlwg yn nifer y milfeddygon a ymunodd â'r proffesiwn yn y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, o 2,782 yn 2019 i 2,061 yn 2021. Yn y cyfamser, bu cynnydd amlwg yn nifer y milfeddygon sy'n gadael y DU ers 2018, naill ai drwy adael y Gofrestr yn gyfan gwbl neu symud i gategori cofrestru arall. O ganlyniad i'r tueddiadau hyn, mae nifer net y milfeddygon sy'n gweithio yn y DU wedi gostwng yn sylweddol ers 2019. Mae'r duedd hon wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan ostyngiad sylweddol yn nifer y milfeddygon sy'n ymuno o dramor, yn enwedig o'r UE. Yn 2018, roedd gan dros hanner (53 y cant) y rhai newydd ar y gofrestr gymwysterau'r UE, ond yn 2021 roedd hyn yn llai nag un rhan o bump (19 y cant).

Mae heriau'r gweithlu wedi'u gwaethygu gan COVID-19. Canfu arolwg diweddar Coleg Brenhinol y Milfeddygol o'r proffesiwn milfeddygol o ran eu profiadau o'r pandemig fod llawer yn ystod y cyfnod wedi gorfod ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol (54 y cant) a newid eu patrymau gwaith (71 y cant). Roedd 80 y cant o ymatebwyr wedi gweld cynnydd yn eu llwyth achosion oherwydd cynnydd mewn perchnogaeth anifeiliaid anwes. Roedd llawer yn teimlo bod hyn wedi effeithio arnynt yn bersonol, gyda 65 y cant yn profi gwrthdaro rhwng eu lles a'u rolau proffesiynol. Mae'r pwysau y mae milfeddygon yn ei deimlo wedi'i waethygu gan gynnydd parhaus mewn perchnogaeth anifeiliaid bach, gan gynnwys cynnydd amlwg o ganlyniad i'r pandemig.

---

[9] Brexit & The Veterinary Profession, Cymdeithas Milfeddygon Prydain, 2017.

[10] Briff Ymchwil: Goblygiadau Brexit ar gyfer TB Buchol yng Nghymru, Gareth Enticott, Ionawr 2018

[11] Mobile Work, Veterinary Subjectivity and Brexit: Veterinary Surgeons' Migration to the UK, Gareth Enticott, Sociologia Ruralis, Cyfrol 59, Rhifyn 4, tt. 718-738, 2019.

Mae canlyniadau prinder gweithlu yn sylweddol, yn enwedig o ran gwaith ym maes anifeiliaid fferm. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu neu danseilio effaith a chynaliadwyedd y sector i fynd i'r afael â heriau clinigol, fel monitro a thrin clefydau a hybu amcanion strategol ehangach ar gyfer iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys hybu canlyniadau strategol sydd wedi'u cynnwys yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru. Gall prinder hefyd gyfyngu ar y ffocws y gellir ei ddefnyddio i wella'r arfer o ddefnyddio meddygaeth ataliol. Gall parhau i golli milfeddygon anifeiliaid fferm drwy fethu â'u cadw hefyd danseilio'r sylfaen wybodaeth a phrofiad a all fod yn ganolog wrth ymateb yn effeithiol i heriau clefydau sy'n dod i'r amlwg.

Mae mynd i'r afael â heriau'r gweithlu, felly, yn anghenraid strategol allweddol ar gyfer cynaliadwyedd tymor byr a thymor hir y sector milfeddygol, ac o ran sicrhau a gwella'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'r sector amaethyddol yn fwy cyffredinol, gan gynnwys mynd i'r afael â materion fel TB. Caiff natur a graddau'r heriau hyn eu harchwilio'n fanylach yn y bennod ddilynol sy'n amlinellu canfyddiadau'r ymchwil. Awn ymlaen yn awr i ddisgrifio TB yng Nghymru, ac ymateb Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Ddileu.

# 4 Twbercwlosis yng Nghymru

Maes ffocws allweddol ar gyfer gwaith ym maes anifeiliaid fferm yw nodi a dileu TB. Y clefyd yw un o'r materion pwysicaf ym maes iechyd anifeiliaid yng Nghymru, gyda goblygiadau ehangach i iechyd y cyhoedd. At hynny, mae'n gosod gofynion sylweddol ar gapasiti milfeddygon, gydag amcangyfrif o 2.1 miliwn o brofion croen yn cael eu cynnal yn 2020[12]. Dyma ddisgrifio'n gryno nodweddion ac epidemioleg TB yng Nghymru, cyn amlinellu sut yr eir i'r afael ag ef drwy'r Rhaglen Ddileu.

## Nodweddion TB yng Nghymru

### Iechyd y Cyhoedd

Yn ogystal â bod yn flaenoriaeth ym maes iechyd anifeiliaid, mae TB yn flaenoriaeth i iechyd y cyhoedd gan ei fod yn filhaint, sy'n golygu y gellir ei drosglwyddo'n naturiol o anifeiliaid i bobl o dan rai amodau. Mewn pobl, gall TB fod yn glefyd difrifol a gall weithiau fod yn angheuol. Oherwydd y Rhaglen Gynhwysfawr i Ddileu TB yng Nghymru, gan gynnwys mesurau fel gwyliadwriaeth fanwl drwy gynnal profion TB, mae achosion dynol o TB wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae rheolaethau iechyd y cyhoedd fel pasteureiddio llaeth yn rheolaidd hefyd wedi bod yn effeithiol iawn o ran atal heintiau mewn pobl. O ganlyniad, yn ôl y data gwyliadwriaeth ddiweddaraf sydd ar gael, roedd nifer blynyddol yr achosion o TB dynol a gofnodwyd wedi gostwng 53 y cant rhwng 2009 a 2019 i 100 o achosion[13]. Er hyn, mae'r clefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylweddol i iechyd y cyhoedd, yng Nghymru ac yn rhyngwladol[14].

### Iechyd Anifeiliaid

Mewn gwartheg, clefyd anadlol cronig yw TB yn bennaf sydd fel arfer yn effeithio ar yr ysgyfaint a'r nodau lymff. Caiff ei ddal drwy anadlu neu lyncu'r bacteriwm Mycobacterium bovis (M. bovis). Y prif lwybr trosglwyddo yw o wartheg i wartheg, gyda bacteria o anifail heintiedig yn cael eu rhyddhau i'r aer drwy beswch a thisian, a all ledaenu'r clefyd i eraill. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fydd anifeiliaid mewn cysylltiad agos â'i gilydd; mae dwysedd anifeiliaid, felly, yn ffactor pwysig yn nhrosglwyddiad M. bovis.

Mae hefyd yn bosibl trosglwyddo TB yn anuniongyrchol drwy gysylltiad â deunydd o anifail sydd wedi'i heintio, yn ogystal â bwyd a dŵr halogedig. At hynny, gall M. bovis gael ei drosglwyddo o wartheg heintiedig i'w hepil wrth iddynt sugno, a thrwy fwydo llaeth gwastraff heintiedig heb ei basteureiddio (amrwd) i loi. Gall y clefyd hefyd gael ei droslgwyddo o wartheg i foch daear ac o foch daear i wartheg drwy gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol.

---

[12] Epidemiology of bovine tuberculosis in Wales, Annual surveillance report 2020, APHA (2021)

[13] Reports of cases of tuberculosis to enhanced tuberculosis surveillance systems: UK, 2000 to 2019, Public Health England (2020)

[14] Tuberculosis in Wales Annual Report 2019, Data to the end of 2018, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019)


Mae mamaliaid eraill, gan gynnwys camelidau, ceirw, geifr ac anifeiliaid domestig, hefyd yn agored i ddal TB.

Gall fod goblygiadau difrifol i TB o ran iechyd a lles anifeiliaid. Ymhlith anifeiliaid heintiedig gall achosi mwy o farwolaethau, llai o ffrwythlondeb, gwendid, colli archwaeth, colli pwysau, twymyn anwadal, peswch ysbeidiol, dolur rhydd, a nodau lymff amlwg mawr. Gall TB hefyd bara’n hir, a gall symptomau gymryd misoedd neu flynyddoedd i ymddangos. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall gwartheg heintiedig drosglwyddo'r clefyd cyn iddynt ddangos unrhyw symptomau, a all fod yn fisoedd lawer ar ôl iddynt gael eu heintio. Mae rheoli TB, felly, yn dibynnu ar ganfod a gwaredu gwartheg sydd wedi'u heintio cyn gynted â phosibl.

## Faint o TB sydd yng Nghymru

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod nifer yr achosion o TB ymhlith buchesi yng Nghymru, ar wahân i amrywiadau bach, wedi bod yn gostwng yn raddol ers cyflwyno'r Rhaglen i Ddileu TB yn 2008 (gweler Ffigur 1):

Ffigur 4.1: Nifer yr achosion newydd o TB bob blwyddyn, a chyfartaledd symudol 12 mis o ddigwyddiadau fesul 100 o fuchesi anghyfyngedig, 1990–2020[15]




Gostyngodd nifer yr achosion newydd o TB saith y cant yn 2020 (o gymharu â 2019) a dyma'r lefel isaf a welwyd ers dros 10 mlynedd. Yn 2020, cofnodwyd cyfanswm o 614 o achosion

[15] Epidemiology of bovine tuberculosis in Wales, Annual Surveillance Report 2020, APHA (2021)

newydd o TB, ac roedd 90 y cant ohonynt wedi'u dosbarthu fel Statws Heb TB Swyddogol Wedi’i Ddiddymu[16]. Wrth fonitro a dileu TB, rhoddir statws i fuchesi yng Nghymru naill o hanes profi clir (Statws Heb TB Swyddogol); pan fo amheuaeth o haint TB yn y fuches (Statws TB Swyddogol Wedi’i Atal); neu Statws Heb TB Swyddogol Wedi’i Ddiddymu pan fo tystiolaeth ychwanegol yn awgrymu bod yr haint yn fwy tebygol o fod yn bresennol.

---

Mae'r risg y bydd buches yn cael ei heintio â TB yn gysylltiedig â ffactorau risg fel dwysedd y fuches, maint y fuches, y math o gynhyrchu, hanes TB, a lleoliad. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at grynodiadau gofodol o TB mewn buchesi gwartheg o fewn ardaloedd o Gymru. Gwelwyd cyfradd achosion sylweddol uwch o TB mewn buchesi llaeth na buchesi eidion er enghraifft, ac mae'r effaith hon yn parhau ar ôl addasu ar gyfer maint a lleoliad y buchesi. Yn yr un modd, buchesi sydd â mwy na 300 o anifeiliaid sydd â'r cyfraddau uchaf o achosion. Mae hyn yn arwain at fwy o achosion mewn ardaloedd sydd â chrynodiadau mwy o ffermydd llaeth neu ffermydd mwy o faint.


Oherwydd dosbarthiad gofodol TB, mae ymdrechion i ddileu TB wedi canolbwyntio ar sicrhau bod yr ardaloedd hynny lle mae’r risg ar ei huchaf yn cael eu monitro'n agosach. I gynorthwyo hyn, mae Cymru wedi'i rhannu'n bum ardal TB: Ardal TB Uchel y Gorllewin, Ardal TB Uchel y Dwyrain, Ardal TB Canolradd y Canolbarth, Ardal TB Canolradd y Gogledd, a’r Ardal TB Isel[17]. Fel sydd i’w weld yn y map isod, canfuwyd y clystyrau mwyaf o achosion newydd yn Ardal TB Uchel y Gorllewin ac Ardal TB Uchel y Dwyrain ar hyd y ffin.

---

[16] Ibid.
[17] Dangosfwrdd TB Gwartheg, Ebrill i Fehefin 2021, Llywodraeth Cymru

Ffigur 4.2: Nifer yr achosion o TB ar lefel buchesi yng Nghymru yn 2020[18]

[18] Epidemiology of bovine tuberculosis in Wales, Annual Surveillance Report 2020, APHA (2021)




O ran deall graddau TB, amcangyfrifir bod chwech y cant o fuchesi Cymru wedi dioddef achos newydd o TB yn 2020, ac roedd 5.3 y cant o fuchesi o dan gyfyngiadau symud yng nghanol mis Rhagfyr 2020. Yn fwy na hynny, mae'r duedd hon wedi'i chanoli'n fawr mewn ardaloedd TB uchel. Arhosodd nifer yr achosion ar eu huchaf yn Ardal TB Uchel y Gorllewin, lle mae dros hanner yr holl achosion o TB wedi'u lleoli. Mae'r gostyngiad o bump y cant yn nifer yr achosion a welwyd yng Nghymru yn gyffredinol yn 2020 (o gymharu â 2019) wedi'i yrru gan y gostyngiad a welwyd yn Ardal TB Uchel y Dwyrain ac Ardal TB Uchel y Gorllewin, sy'n dal i gynnwys y rhan fwyaf o achosion o TB mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Mae'r clefyd yn cael effaith gymdeithasol ac ariannol sylweddol ar ffermwyr, eu busnesau a'r gymuned wledig ehangach. Gall iechyd a lles gwael gwartheg sy'n deillio o TB effeithio'n sylweddol ar gynhyrchiant ffermydd, er enghraifft. Mewn dadansoddiad helaeth o effaith TB, gwelwyd colled o 10 y cant o gynhyrchu llaeth ar gyfartaledd a cholled o rhwng chwech a 12 y cant o gynhyrchu cig dros 5 mlynedd[19]. Mewn astudiaeth fwy diweddar ar raddfa fach ar ffermydd llaeth Iwerddon, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn cynhyrchiant llaeth gan wartheg sydd â TB arnynt (yn amrywio o 120 i 573 kg) o gymharu â gwartheg nad oes TB arnynt[20]. Gall presenoldeb TB, felly, gael effeithiau economaidd negyddol sylweddol.

At hynny, mae achos o TB yn cael sawl effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar fusnesau fferm. Mewn astudiaeth fanwl a oedd yn archwilio effaith achosion o TB ar ffermwyr yng Nghymru a Lloegr, gwelwyd bod y costau sy'n gysylltiedig ag achosion o TB tua £6,600 ar gyfartaledd, gydag amrediad rhyngchwartel o tua £20,800[21]. Mae hyn yn awgrymu y gall costau amrywio'n sylweddol ar gyfer gwahanol fathau o ffermydd. Canfuwyd bod y costau'n cynyddu gyda maint y fuches, gan adlewyrchu'r effeithiau graddfa sy'n gysylltiedig â thrin a chynnal mwy o anifeiliaid; hyd yr achosion (sy'n adlewyrchu'r ymdrech gynyddol i gydymffurfio â phrofion ac wrth ymdopi â chyfyngiadau symud); a nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn orfodol (gan adlewyrchu tarfu ar y cynhyrchu a fwriadwyd).

Mae'n ymddangos mai prin yw'r data sy'n cyfeirio at gostau cyfanredol TB i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru gyfan. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd yr heriau empirig o nodi a chipio'r ystod lawn o gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant anifeiliaid a gollwyd yn sgil TB, a chostau dilynol mesurau adferol unwaith y bydd wedi'i ganfod mewn buches. Awgrymodd un amcangyfrif a ddarparwyd gan Brifysgol Aberystwyth fod y costau i ddiwydiant oddeutu £6.4m y flwyddyn[22].

Yn fwy cyffredinol, mae gan TB oblygiadau o ran costau i gyllid cyhoeddus hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys gweinyddu a gweithredu'r Rhaglen i Ddileu TB a'r mesurau cysylltiedig, gan gynnwys profi, goruchwylio ac iawndal. Unwaith eto, mae Prifysgol Aberystwyth yn amcangyfrif bod y costau hyn oddeutu £25m y flwyddyn[23].

[19] Meisinger G. Economic effects of the elimination of bovine tuberculosis on the productivity of cattle herds. 2. Effect on meat production. Monatsh. Veterinarmed. (1970) 25:7–13.
[20] Boland F, Kelly GE, Good M, More SJ. Bovine tuberculosis and milk production in infected dairy herds in Ireland. Prev Vet Med. (2010) 93:153–61. doi: 10.1016/j.prevetmed.2009.09.021
[21] Barns et al. Estimating the consequential cost of bovine TB incidents on cattle farmers in the High Risk & Edge Areas of England & High and Intermediate TB Areas of Wales, Defra (2020)
[22] Bovine TB, detection, protection and control, Prifysgol Aberystwyth (2022)
[23] Bovine TB, detection, protection and control, Aberystwyth University (2022)

## Y Rhaglen i Ddileu TB yng Nghymru

Oherwydd ei effaith sylweddol ar les anifeiliaid, lles ffermwyr, a hyfywedd busnesau, mae mynd i'r afael â TB yn flaenoriaeth i amaethyddiaeth yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Elfen strategol allweddol o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â TB yw'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae'r rhaglen, a gyflwynwyd yn 2008, yn cynnwys cyfres o fesurau sydd â'r nod o gryfhau bioddiogelwch, gwyliadwriaeth a monitro wrth reoli gwartheg heintiedig a chefnogi ffermwyr yn ariannol wrth ymateb i achosion o TB. Ei nod yw mynd i'r afael â phob ffynhonnell o haint er mwyn cyflawni ei nod hirdymor o ddileu TB yng Nghymru.

Caiff y Rhaglen i Ddileu TB ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a'i chyflawni mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a phartneriaid cyflenwi milfeddygol sy'n cynnal profion TB ac ymweliadau fferm. Mae Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB yn goruchwylio'r rhaglen ac mae'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â ffermio. Mae tri bwrdd rhanbarthol i ddileu'r clefyd yng Nghymru (Gorllewin, De/Canolbarth a Gogledd) sy'n cynnwys ffermwyr lleol, milfeddygon a rhanddeiliaid amaethyddol eraill.

Esblygodd y rhaglen ers ei chyflwyno. Cyflwynwyd profion rheolaidd blynyddol ar fuchesi fel mater o drefn ledled Cymru yn 2010, ynghyd â mesurau i gynyddu sensitifrwydd profion TB. Estynnwyd rheolaethau a mesurau ar gyfer gwartheg i wella'r ffordd y caiff achosion hir o TB eu rheoli. Gyda'i gilydd, mae'r Rhaglen yn cynnwys nifer o wahanol elfennau ac ymyriadau, gan gynnwys:

- Profi buchesi gwartheg (bob blwyddyn a phob dwy flynedd – yn dibynnu ar yr ardal);
- Ystod eang o fesurau rheoli gwartheg, fel profion cyn symud; • Cyfyngiadau symud ar fuchesi heintiedig;
- Lladd anifeiliaid sydd wedi'u heintio.

### Cynnal Profion TB rheolaidd

Mae cynnal profion TB rheolaidd yn arf allweddol er mwyn monitro a nodi clefydau'n gynnar. Y prif ddull profi yw'r prawf croen twbercwlin, lle mae ychydig o antigen yn cael ei chwistrellu i'r croen ac mae'r adwaith imiwnedd yn cael ei fesur. Gwneir diagnosis diffiniol drwy dyfu'r bacteria mewn labordy, proses sy'n cymryd o leiaf wyth wythnos i'w chwblhau. Mae'r prawf croen twbercwlin yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ledled y byd.

Ers 2010, cynhaliwyd profion TB rheolaidd ar ffermydd gwartheg Cymru o leiaf unwaith y flwyddyn. Pan fydd gwartheg yn ymateb i'r prawf, caiff y gwartheg hyn sydd â TB arnynt eu lladd, a rhaid pasio profion pellach, h.y. profion cyfnod byr, cyn y gellir datgan bod gan y fferm 'Statws heb TB Swyddogol'. Yn hanesyddol, cynhaliwyd profion gan filfeddygon sy'n gweithio naill ai i asiantaethau llywodraethol (gan gynnwys APHA) neu i filfeddygon preifat sy'n gweithio yn rhinwedd eu swydd fel Milfeddygon Swyddogol. Gall Swyddogion Iechyd Anifeiliaid, a elwir hefyd yn dechnegwyr neu'n 'brofwyr lleyg', sy'n gweithio o fewn APHA hefyd gynnal profion.

Yn dilyn newidiadau i'r ffordd y cafodd profion TB eu caffael gan Lywodraeth Cymru yn 2014, mae'r profion yn cael eu trefnu ar hyn o bryd gan ddau gwmni yng Ngogledd Cymru (Menter a Busnes) ac yn Ne Cymru (Iechyd Da). Mae'r rhan fwyaf o brofion yn cael eu cynnal gan filfeddygon preifat ar ran y sefydliadau hyn. Amcangyfrifir bod milfeddygon llywodraethol sy'n gweithio i APHA yn cynnal 4–5 y cant o'r profion.

Trown yn awr i archwilio effaith cynnal profion TB ar filfeddygon a phractisau.

# 5 Effeithiau Cynnal Profion TB ar Filfeddygon a Phractisau

Mae'r adran hon yn defnyddio amrywiaeth o ddata i archwilio effeithiau cynnal profion TB ar filfeddygon a phractisau. Mae'n ystyried adborth o ymgynghoriadau â milfeddygon a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys drwy arolwg, cyfweliadau manwl, a chyfarfod bord gron (a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil). At hynny, mae'n defnyddio ymchwil ehangach sy'n cynorthwyo ein dealltwriaeth ymhellach.

## Deall yr Effaith

Y tu hwnt i ganlyniadau clinigol pwysig y Rhaglen i Ddileu TB, a chanlyniadau pwysig o ran iechyd a lles anifeiliaid, mae cynnal profion TB ynddo’i hun yn arwain at amrywiaeth o effeithiau ehangach i filfeddygon a phractisau. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol cynnal profion ar gapasiti milfeddygon, er enghraifft, a'r cyfraniad economaidd y gall ei wneud wrth fod o gymorth i bractisau a gwasanaethau eraill, fel darpariaeth frys y tu allan i oriau. At hynny, ceir effeithiau clinigol ehangach gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymgysylltu’n ehangach â ffermwyr wrth gynnal y profion.


## Capasiti

### Recriwtio Milfeddygon

Roedd consensws ymhlith milfeddygon ynghylch graddau’r heriau o ran recriwtio milfeddygon newydd. Gyda'i gilydd, dywedodd 72 y cant o filfeddygon eu bod yn aml iawn neu bob amser yn wynebu heriau wrth recriwtio staff.

Ffigur 5.1: Graddau'r heriau o ran recriwtio milfeddygon newydd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

45%





Mewn sgyrsiau â milfeddygon, roedd enghreifftiau o bractisau a oedd wedi gweld gostyngiadau yn nifer y staff oherwydd bod eu cydweithwyr rhyngwladol wedi dychwelyd adref i'r gwaith, neu lle nad oedd cymaint o ymgeiswyr o dramor yn eu cynnig eu hunain i lenwi swyddi gwag. Mae hyn yn awgrymu bod tueddiadau ehangach, gan gynnwys gostyngiad amlwg yn nifer y milfeddygon sy'n ymuno â'r proffesiwn yn y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn effeithio ar bractisau yng Nghymru[24].

Archwiliwyd rôl ac effaith cynnal profion TB ar recriwtio mewn sgyrsiau mwy agored. Roedd llawer yn teimlo bod profion TB ynddo'i hun yn sbardun allweddol i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran recriwtio. Mynegodd llawer fod y gwahaniaethau mewn trefniadau profi rhwng Cymru a Lloegr wedi rhoi practisau anifeiliaid fferm Cymru o dan anfantais. Teimlwyd bod darpar filfeddygon a oedd yn pwyso a mesur eu hopsiynau yn dod i'r casgliad bod llwyth gwaith is o ran profion TB yn Lloegr yn fwy deniadol. Cyfeiriodd un uwch filfeddyg, er enghraifft, enghraifft, at achos o ymgeisydd yr oeddent wedi cyfweld â hwy yn penderfynu gweithio yn Lloegr. Un rheswm oedd y byddent yn cael mwy o gyfle i wneud gwaith clinigol ehangach a fyddai'n helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd.

[24] The 2019 Survey of the Veterinary Profession, Coleg Brenhinol y Milfeddygon (2019)

I rai, roedd yr heriau'n gysylltiedig â recriwtio yn arbennig o ddifrifol. Roedd un practis anifeiliaid fferm bach, annibynnol a gwledig, er enghraifft, wedi bod yn gweithredu'n sylweddol brin o staff am gyfnod sylweddol o amser. Roedd hyn wedi bod yn achosi pwysau aruthrol, cymaint fel eu bod wedi bod yn ystyried eu dyfodol yn y proffesiwn. Ar y cyfan, roedd milfeddygon yn teimlo'n gryf bod cynnal profion TB yn gwaethygu'r heriau o ran recriwtio, gydag 83 y cant o ymatebwyr yn awgrymu ei fod yn cael effeithiau negyddol neu effeithiau negyddol iawn:

Ffigur 5.2: Graddau effaith cynnal profion TB ar recriwtio a chadw milfeddygon





Mae'n ymddangos bod y canfyddiadau hyn hefyd yn cyd-fynd ag ymchwil ehangach i dueddiadau mewn canfyddiadau ac agweddau ar waith ym maes anifeiliaid fferm ymhlith milfeddygon dan hyfforddiant neu filfeddygon sydd newydd gymhwyso. Canfuwyd bod tasgau arferol a heriol fel profion TB wrth wraidd rhai canfyddiadau negyddol, a all atal pobl rhag ymgymryd â gwaith ym maes anifeiliaid fferm wedi hynny[25].

[25] The future of cattle veterinary practice: Insights from a qualitative study, Woodward et al., Veterinary Record, Cyfrol 185, Rhifyn 7, 2019.

## Llwyth Gwaith

Yn ogystal â heriau recriwtio, roedd milfeddygon yn tueddu i adrodd am gynnydd mewn llwyth gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod cynnydd mewn llwyth achosion anifeiliaid bach mewn practisau cymysg yn fwy amlwg, y darlun cyffredinol oedd bod llwyth gwaith yn cynyddu i'r rhan fwyaf o filfeddygon.

Ffigur 5.3: Amrywiadau mewn llwyth achosion ar draws meysydd anifeiliaid fferm ac anifeiliaid bach dros y flwyddyn ddiwethaf




Gan archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd yn y llwyth gwaith, roedd y rhesymau'n gymhleth, yn amrywiol ac yn aml yn cael eu llywio gan amgylchiadau lleol. Mewn gwaith cymysg, er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd fod pwysau o ganlyniad i lwyth gwaith cynyddol ym maes anifeiliaid bach wedi golygu bod cynnydd yn llwyth gwaith y tîm fferm

hefyd. Roedd eraill wedi gweld cynnydd yn y llwyth gwaith oherwydd prinder milfeddygon i ymgymryd â'r ystod lawn o gyfrifoldebau.

Wrth archwilio rôl ac effaith cynnal profion TB ar lwyth gwaith, roedd yr ymatebion yn unfrydol. Roedd 83 y cant o’r ymatebwyr yn teimlo bod cynnal profion TB yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar lwyth gwaith milfeddygon. I lawer, roedd cynnal profion TB yn ymrwymiad sylweddol o ran amser, ac weithiau'n galw am ddyddiau hir yr oedd yn rhaid eu cydbwyso ag ymrwymiadau eraill fel bod ar alwad i ddarparu gofal brys y tu allan i oriau.

Mewn sgyrsiau mwy agored, roedd rhai milfeddygon yn pryderu mai ychydig iawn o gapasiti dros ben oedd yn y system, a oedd yn cyflwyno amrywiaeth o risgiau gan gynnwys i bractisau a’u cleientiaid, ac wrth ymateb i heriau newydd o ran clefydau. Roedd eraill yn teimlo bod costau cyfle i'r heriau sy’n codi yn sgil llwythi gwaith uchel, gan gynnwys mygu gwaith pwysig arall. Roedd y rhain yn cynnwys datblygiad personol, ac archwilio ffyrdd i sefydlu model cynghori yn fwy cadarn gyda'u cleientiaid. Yn ogystal, roedd teimlad cyffredinol, yn benodol ac yn ymhlyg mewn sgyrsiau, fod profion TB yn lleihau'r cyfle i wneud gwaith clinigol pwysig a oedd yn fwy ystyrlon a phleserus i rai ohonynt.

Ar y llaw arall, cyfeiriodd rhai milfeddygon at rôl gadarnhaol yr incwm a gynhyrchir o gynnal profion TB, a oedd yn cynorthwyo’r tîm fferm i weithredu ar raddfa briodol. O'r safbwynt hwn, creodd yr incwm a gynhyrchwyd o brofion ddigon o gapasiti ar gyfer llwyth gwaith mwy cytbwys, gan gynnwys darparu darpariaeth y tu allan i oriau drwy'r rota. Roedd y safbwynt hwn yn tueddu i gael ei amlygu, er nad bob amser, gan arferion llai sy'n canolbwyntio'n bennaf ar arferion anifeiliaid fferm.

## Boddhad Swydd

Mynegwyd goblygiadau cynnal profion TB hefyd o ran boddhad swyddi. Dywedodd rhai fod cynnal profion TB yn waith corfforol, a oedd yn aml yn anodd, ac mewn rhai achosion yn beryglus. Pan ofynnwyd iddynt yn benodol i ba raddau yr oeddent yn mwynhau cynnal profion TB, roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedd yn mwynhau’r gwaith. Gyda'i gilydd, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod profion naill ai'n annymunol neu'n annymunol iawn.

Roedd y rhai a oedd heb farn neu'n fwy cadarnhaol am brofion TB yn tueddu i fynegi eu bod yn mwynhau'r cyfle i fod ar y fferm. Roedd hyn yn arbennig o wir am fuchesi llai, gan gynnwys gwartheg sugno, lle nad oedd nifer y profion mor fawr ac roedd cyfleoedd i gael sgyrsiau ehangach gyda ffermwyr. Ar y llaw arall, roedd eraill o'r farn bod profi buchesi llai yn llai pleserus, gan nodi bod yr anifeiliaid yn fwy heriol i'w trin a'u bod yn cymryd llawer o amser.

Roedd rhai uwch filfeddygon yn pryderu am eu cydweithwyr iau o ran effeithiau cynnal profion TB ar foddhad swyddi. Cyfeiriwyd at geisio peidio â'u gorlwytho â gormod o brofion. At hynny, roedd canfyddiad gan rai bod eu cydweithwyr yn ceisio gwella eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bod eu disgwyliadau wedi newid. Mae'r arsylwadau hyn yn adlewyrchu tueddiadau a data ehangach sydd wedi canfod cynnydd yng nghyfran y


milfeddygon sy'n gweithio'n rhan-amser, ynghyd â gostyngiad yn nifer y milfeddygon sy'n ymgymryd yn bersonol â’u gwaith y tu allan i oriau[26].

Mae ymchwil ehangach yn awgrymu bod 80 y cant o filfeddygon yn nodi lefelau uchel iawn o foddhad yn eu swydd, gan adlewyrchu efallai natur y swydd a'r cysylltiad y mae llawer yn ei deimlo â'r anifeiliaid sydd dan eu gofal. Serch hynny, maent hefyd yn debygol o nodi lefelau uchel o straen o ganlyniad i'w gwaith, ac mae'r rhai sy'n gweithio ym maes anifeiliaid fferm yn tueddu i nodi lefelau uwch o anfodlonrwydd â'r proffesiwn.

Yn fwy cyffredinol, gwnaeth Robinson et al. (2004) ganfod tystiolaeth i awgrymu nad oedd llawer o filfeddygon newydd gymhwyso yn barod ar gyfer realiti gweithio gydag anifeiliaid fferm. Roedd hyn yn cynnwys lefelau uchel o waith y tu allan i oriau, wedi’i waethygu gan brinder darpariaeth filfeddygol ym maes anifeiliaid fferm mewn rhai ardaloedd; heriau yn sgil agweddau ffermwyr tuag at filfeddygon iau; materion llif arian ym myd ffermio a chyfyngiadau hynny ar y galw am gyngor clinigol (h.y. mae pen draw i werth economaidd anifeiliaid); anawsterau gwaith corfforol a thrwm; biwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid fferm; a lefelau uchel o waith rheolaidd, ailadroddus (gan gynnwys digornio a chynnal profion TB). At hynny, gwnaeth Robertson et al. ganfod tystiolaeth i awgrymu y gall anfodlonrwydd arwain at filfeddygon yn symud oddi wrth faes anifeiliaid fferm a thuag at faes anifeiliaid bach dros amser — hyd yn oed os nad dyna oedd eu bwriad gwreiddiol (gweler Ffigur 6).

Ffigur 5.4: Troell dadrithiad (Robinson et al., 2004)

[26] The 2019 Survey of the Veterinary Profession, Coleg Brenhinol y Milfeddygon (2019)




## Cadw Milfeddygon

Mewn sgyrsiau mwy agored, mynegwyd pryder ynghylch effeithiau posibl boddhad swydd ar gyfraddau cadw milfeddygon. Roedd hyn yn tueddu i gael ei gynnig yn fwy fel canfyddiad o risg gyffredinol o ran gweithio ym maes anifeiliaid fferm nag fel unrhyw achos penodol. Her allweddol yr oedd rhai practisau'n ei hwynebu, fodd bynnag, oedd y gostyngiad yng nghyfraddau cadw gweithwyr rhyngwladol, gan gynnwys rhai o'r UE. Roedd hyn yn cynyddu pryderon ynghylch cadw staff a rôl ac effaith cynnal profion TB, gan fod gweithwyr rhyngwladol yn aml yn canolbwyntio ar gyflawni gwaith mwy rheolaidd gan gynnwys cynnal profion.

Mae amodau gwaith a boddhad swydd yn bwysig gan eu bod yn ffactorau sy'n rhagfynegi cyfraddau cadw. Mae tystiolaeth ehangach yn awgrymu bod ffactorau sydd o gymorth i gadw milfeddygon ym maes anifeiliaid fferm yn cynnwys gweithio mewn practis lle caiff arfarniadau staff eu cynnal; dod o deulu sydd â fferm fasnachol; treulio mwy o amser ar waith clinigol; a bod ar alwad gyda milfeddyg profiadol yn eich swydd gyntaf ar ôl graddio. Ar y llaw arall, mae

gweithio mewn practis lle caiff llety ei ddarparu a nifer cynyddol o flynyddoedd ers graddio wedi'u cysylltu â thebygolrwydd sylweddol is o barhau i weithio ym maes anifeiliaid fferm[27].

### Effeithiau Cyffredinol ar Gapasiti

Roedd milfeddygon yn aml yn nodi bod y cyfyngiadau ar gapasiti yr oeddent yn eu profi yn arbennig o ddifrifol. Roedd yn ymddangos bod natur a graddau'r heriau yn dibynnu ar amgylchiadau lleol penodol, gan gynnwys maint a ffocws y practis a'r cymunedau ffermio y maent yn eu gwasanaethu. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod cynnal profion TB yn arwain at effeithiau negyddol ar gapasiti, gan gynnwys o ran recriwtio, boddhad swydd, a chadw milfeddygon. Roedd rhai practisau, a rhai llai yn gyffredinol, yn cyfeirio at orfod mynd ati'n ofalus i gael cydbwysedd wrth sicrhau graddfa ddigonol o fewn timau fferm er mwyn cyflawni eu hymrwymiadau. O'r safbwyntiau hyn, roedd cynnal profion TB yn arwain at rai effeithiau cadarnhaol o ran capasiti.

Fodd bynnag, roedd milfeddygon yn gyffredinol yn mynegi ymdeimlad o frys ynglŷn â chapasiti, canfyddiad a gadarnhawyd mewn trafodaethau bord gron. Er gwaethaf rhai pryderon ynghylch goblygiadau atebion posibl i'r cwestiwn hwn, roedd y milfeddygon yn unfrydol bod angen gwneud rhywbeth. Hyd yn oed ymhlith y rhai a fynegodd gafeatau neu ystyriaethau pellach ynghylch ad-drefnu sut y dylid cynnal profion TB, roedd yn cael ei ystyried yn fan cychwyn gwerthfawr.

## Effeithiau Economaidd

Un o effeithiau sylweddol cynnal profion TB yw'r incwm y mae'n ei ddarparu i bractisau. Ar gyfer profion blynyddol rheolaidd, mae practisau'n derbyn ffi benodol o £95 am bob ymweliad fferm, ynghyd â £2 am bob anifail sy'n cael ei brofi. Er mwyn deall arwyddocâd yr incwm hwn, mae'r amcangyfrifon presennol yn amrywio o ran yr union gyfraniad y mae cynnal profion yn ei wneud i hyfywedd economaidd gwaith ym maes anifeiliaid fferm. O ran incwm cynnal profion fel cyfran o holl incwm practisau, mae'r amcangyfrifon yn amrywio o 25 y cant i 37.5 y cant[28].

---

Yn yr arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, gofynnwyd i ymatebwyr, yn gyffredinol, pa gyfran o'u hincwm a gynhyrchir drwy gynnal profion TB. Ar gyfartaledd, roedd

---


[27] Adam et al. (2015) Retaining vets in farm animal practice: a cross-sectional study

[28] Relational distance, neoliberalism and the regulation of animal health, Gareth Enticott, Geoforum, Cyfrol 52, tt. 42-50, 2014 ac Economic Impact Assessment of Bovine Tuberculosis in the South West of England, Butler et al., Papur Ymchwil CRPR Rhif 30, 2010

y profion yn cynrychioli 24.8 y cant o'r incwm ar gyfer practisau anifeiliaid fferm. Nododd y rhai a oedd yn gwneud gwaith cymysg ar gyfartaledd fod 6.6 y cant o incwm y practis yn cael ei gynhyrchu drwy gynnal profion. Serch hynny, mae cryn ansicrwydd yn y data, ac felly dylid ystyried yr amcangyfrifon hyn yn awgrym yn hytrach na chyfrif diffiniol o gyfran incwm practisau sy'n deillio o gynnal profion.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd am eu barn ar bwysigrwydd cymharol incwm cynnal profion TB i'w practis. Gyda'i gilydd, dywedodd 40 y cant o'r ymatebwyr fod incwm cynnal profion yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn i'w cyllid.

Ffigur 5.5: Pwysigrwydd cymharol incwm cynnal profion i gyllid y practis




Mewn sgyrsiau mwy agored, roedd incwm cynnal profion yn amrywiol yn cael ei ddisgrifio fel 'bara menyn'. O'r safbwynt hwn, roedd incwm cynnal profion yn elfen gyson a oedd yn cael ei gwerthfawrogi, gan gynnwys ar gyfer cynllunio tymor byr a thymor canolig. Yn hollbwysig, mewn sgyrsiau mwy agored, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd incwm cynnal profion o ran


sicrhau bod timau fferm ar ddigon o raddfa i gynorthwyo darpariaeth arall fel darpariaeth y tu allan i oriau.

Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn anghyson ynghylch graddau a phwysigrwydd incwm cynnal profion ar gyfer hyfywedd gwaith arall ym maes anifeiliaid fferm. Pan ofynnwyd a oedd incwm cynnal profion yn cynorthwyo gweithgarwch arall fel darpariaeth y tu allan i oriau, roedd yr ymateb yn rhanedig. Roedd y safbwyntiau wedi'u pegynnu, gyda 25 y cant o ymatebwyr ar y naill ben a'r llall o'r sbectrwm rhwng heb fod yn gefnogol o gwbl bod yn eithriadol o gefnogol.


Mewn sgyrsiau mwy agored, roedd y rhai a deimlai nad oedd cynnal profion o gymorth i weithgarwch arall yn tueddu i fynegi'r canfyddiad bod yr amser a dreuliwyd ar gynnal profion yn arwain at gostau cyfle sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu ymchwil ehangach a wnaeth ganfod bod milfeddygon yn llai tebygol o gynhyrchu gwaith clinigol ychwanegol a bod cynnal profion yn amharu ar lefel y gwasanaeth a gynigir gan bractisau[29].

Wrth archwilio'r mater hwn ymhellach, yn nhermau economaidd cyfanredol, awgrymodd yr ymatebion fod TB yn waith lle mae'r elw'n isel. O gymharu'r amser a dreulir a'r incwm a gynhyrchir, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod milfeddygon yn treulio mwy o amser yn cynnal profion nag y maent yn ei gynhyrchu mewn incwm. Gallai hyn ategu ymhellach y sylw bod costau cyfle sylweddol yn gysylltiedig â chynnal profion, a allai fod yn mygu gwaith a allai fod yn fwy gwerthfawr:

Ffigur 5.6: Cyfran o incwm practisau a gynhyrchir gan brofion TB yn erbyn yr amser a dreulir yn profi




[29] Economic Impact Assessment of Bovine Tuberculosis in the South-West of England, Butler et al., Papur Ymchwil CRPR Rhif 30, 2010 a Thystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Dr Gareth Enticott, Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Ionawr 2012




Yn gyffredinol, nid oedd milfeddygon mewn sgyrsiau mwy agored yn cydnabod y sylw bod profion TB yn cyflwyno costau cyfle sylweddol. Teimlwyd bod economeg y gwaith o gynnal profion yn amrywio'n sylweddol. Mynegwyd yn aml bod profi buchesi mwy yn gyflymach ac yn haws na phrofi buchesi llai, a oedd yn eu gwneud yn fwy gwerthfawr na buchesi llai. Nododd eraill eu bod yn teimlo bod cynnal profion ar unedau llai yn fwy tebygol o greu gwaith pellach, a oedd yn cynyddu gwerth economaidd ymwneud â hwy.

At hynny, pan ofynnwyd am faint o waith clinigol arall y gallai milfeddygon ei wneud ar ffermydd, teimlai rhai mai prin oedd y cyfleoedd oherwydd diffyg galw, yn enwedig o ran meddygaeth ataliol. Mae hyn yn awgrymu efallai nad hawdd fyddai ymgymryd â gweithgareddau eraill, fel gwasanaethau cynghori a chymorth pellach, yn lle cynnal profion.

## Yr Effeithiau Economaidd i'r Gymdeithas

Yn gysyniadol, gellid ystyried bod incwm o gynnal rofion TB yn cynhyrchu nwyddau cyhoeddus ac yn gymhorthdal cyhoeddus i'r sector milfeddygol. Mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r data sydd ar gael i'r cyhoedd ar raddfa gyfanredol y gwariant ar brofion a'r incwm y mae'n ei gynhyrchu. Amcangyfrifwn fod cyfanswm effaith ariannol cynnal profion ar gyfer y sector milfeddygol oddeutu £4.3m y flwyddyn[30].

Gallai incwm cyfanredol o gynnal profion fod yn ehangu'r capasiti milfeddygol ym maes anifeiliaid fferm ond dim ond i'r graddau y mae'n helpu i gyflenwi nwyddau cyhoeddus. Y tu hwnt i'r effeithiau pwysig hyn, nid oes unrhyw fanteision economaidd ehangach pellach i gymdeithas, gan fod y buddsoddiad mewn profion yn golygu trosglwyddo adnoddau rhwng y trysorlys a busnesau preifat. Mae'r trosglwyddiadau o fudd i'r derbynnydd ac maent yn gost i'r rhoddwr ac, felly, nid ydynt yn gwneud cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn well nac yn waeth ei byd[31].

[30] Mae hyn yn tybio bod milfeddygon ar draws Cymru yn cynnal 2.1m o brofion y flwyddyn am £2, gyda ffi trefnu o £95 yn cael ei thalu am o leiaf un ymweliad â phob un o'r 11,589 o fuchesi ledled Cymru. Data cyfunol am brofion a buchesi o Epidemiology of bovine tuberculosis in Wales, Annual Surveillance Report 2020, APHA (2021)
[31] Y Llyfr Gwyrdd: Canllawiau Llywodraeth Ganolog ar Arfarnu a Gwerthuso, Trysorlys ei Mawrhydi (2022)


## Effeithiau Clinigol

Y tu hwnt i fanteision clinigol cynnal profion TB ei hun ar iechyd a lles anifeiliaid, ceir effeithiau clinigol posibl eraill. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau sy'n deillio o gapasiti milfeddygon, y gwasanaethau y gallant eu cynnig, a'r gwaith clinigol ehangach y mae milfeddygon yn ei wneud o ganlyniad i hynny.

Wrth ddeall rôl ac arwyddocâd yr effeithiau hyn, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau y mae'r profion a gynhelir gan filfeddygon yn gwella canlyniadau iechyd a lles ehangach. Gyda'i gilydd, teimlai 52 y cant o'r ymatebwyr mai dim gwella'r canlyniadau ychydig a wna, neu nad yw'n eu gwella o gwbl.

Ffigur 5.7: I ba raddau y mae profion TB gan filfeddygon yn gwella canlyniadau clinigol ehangach

40%




Gan archwilio hyn yn fanylach, roedd y rhai a oedd yn teimlo bod gan brofion rôl fwy cyfyngedig o ran hybu canlyniadau clinigol ehangach yn tueddu i nodi'r ffaith nad oeddent yn cynnig llawer o gyfleoedd i ehangu trafodaethau gyda ffermwyr i bynciau neu heriau clinigol neu les eraill. Roedd hyn yn arbennig o wir am fuchesi mwy, lle nad oedd llawer o amser ar y safle y tu hwnt i gynnal profion a lle roeddent yn fwy tebygol o gael cyfleoedd eraill i drafod unrhyw heriau clinigol.

Roedd y rhai a oedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol am effaith cynnal profion yn tueddu i nodi pwysigrwydd y cyfle i fod ar y fferm ac i archwilio gwartheg mewn ffordd oddefol am faterion neu glefydau hysbysadwy eraill wrth gynnal y profion. Gallai hyn ennyn sgyrsiau a gwaith clinigol arall. O'r safbwynt hwn, soniodd milfeddygon yn aml am yr ymddiriedaeth a'r berthynas dda yr oeddent yn gallu eu meithrin gyda ffermwyr a atgyfnerthwyd gan gynnal profion TB. Yn fwy na hynny, roeddent yn gwybod am yr uned ac yn gyfarwydd â hi, a'r materion iechyd a lles sy'n bodoli (ar y fferm ac yn fwy lleol), a oedd yn gwella'r cyngor a'r arweiniad y gallent eu cynnig. Roedd cynnal profion hefyd yn cynnig cyfleoedd i archwilio agweddau eraill yn ymwneud â TB, gan gynnwys mesurau bioddiogelwch, lleihau clefydau, polisi prynu, cyflwyno stoc, a mesurau cwarantin.


Gan gamu'n ôl, roedd safbwyntiau cyffredinol ar werth a phwysigrwydd cynnal profion ar gyfer datblygu a chynnal perthynas â ffermwyr yn adlewyrchu'n fras safbwyntiau tuag at effaith cynnal profion ar ganlyniadau clinigol ehangach. Gyda'i gilydd, roedd 43 y cant o

filfeddygon yn teimlo nad oedd ond ychydig yn bwysig  neu nad oedd yn bwysig o gwbl, ac awgrymodd 24 y cant ei fod yn bwysig neu'n bwysig iawn.

Roedd y rhai a oedd yn fwy petrusgar ynghylch gwerth cynnal profion yn tueddu i nodi bod cyfleoedd eraill mwy gwerthfawr i archwilio materion clinigol ehangach, gan gynnwys ar ffermydd sy'n llai tebygol o gael cyswllt rheolaidd â'u milfeddyg. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno mentrau, gwasanaethau a chymorth eraill, megis hyrwyddwyr presgripsiynu, yn ogystal â gwaith sicrwydd fferm. Nodwyd hefyd bod y cynigion a nodir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (a allai greu cyfleoedd pellach i ymgysylltu â ffermwyr) yn lleihau pwysigrwydd ac effaith cynnal profion TB ar gyfer heriau clinigol eraill.

Yn bwysig, wrth feddwl am effeithiau clinigol ehangach, roedd canfyddiad cyffredinol bod llwyth gwaith cynnal profion yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygiad proffesiynol. Yn gyffredinol, roedd 64 y cant yn awgrymu mai ychydig yn unig mae cynnal profion yn cefnogi arloesedd, neu nad yw'n gwneud hynny o gwbl.

<u>Ffigur 5.8: I ba raddau y mae cynnal profion TB yn cefnogi arloesedd yn y gwasanaethau a'r wybodaeth a gynigir i ffermwyr</u>




Mewn sgyrsiau mwy agored, cyfeiriodd milfeddygon at faterion yn ymwneud â chostau cyfle cynnal profion, a oedd yn eu hatal rhag canolbwyntio ar weithgareddau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, o ddatblygu'r hyn y maent yn ei gynnig ar ffurf cynghori ynghylch meddygaeth ataliol hyd at sefydlu mentrau trosglwyddo gwybodaeth fel clybiau iechyd buchesi a seminarau gwybodaeth. Er bod hynny'n fwy ymylol, roedd pryderon hefyd ynghylch goblygiadau negyddol llwythi gwaith uchel i ddatblygiad proffesiynol a dilyniant gyrfa yn ehangach. O'r safbwyntiau hyn, gallai cynnal profion TB danseilio

effeithiolrwydd tymor hwy y proffesiwn o ran mynd i'r afael â heriau newydd, yn ogystal â gwneud gwaith ym maes anifeiliaid fferm yn llai deniadol.

## Effeithiau Cyffredinol

Mae effeithiau cynnal profion TB ar filfeddygon a phractisau yn gymhleth ac amrywiol. Maent yn ddibynnol iawn ar gyd-destun, ac yn effeithio ar wahanol filfeddygon a phractisau yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae cynnal profion yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gapasiti milfeddygol, yn ogystal ag ystyriaethau economaidd a chlinigol ehangach.


Mae pwysau'r dystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau negyddol cynnal profion TB (fel y mae wedi'i drefnu ar hyn o bryd) yn gwaethygu'r risgiau sy'n wynebu'r proffesiwn. Mae'r rhain yn cynnwys rôl cynnal profion o ran gwaethygu'r heriau y mae practisau'n eu hwynebu o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal â thanseilio lefelau cyffredinol o gapasiti i gyflawni'r ymrwymiadau presennol. Mae hyn yn creu risgiau sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig, gan gynnwys cyfyngu ar allu'r sector milfeddygol yng Nghymru i ymateb i achosion newydd o glefydau. Maent hefyd yn cyflwyno rhwystrau tymor hwy i'r proffesiwn, gan gynnwys mewn ymdrechion i symud tuag at fwy o ffocws ar feddygaeth ataliol.

# 6 Casgliadau

Ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o frys y sefyllfa. Roedd consensws ynghylch gwerth a phwysigrwydd archwilio sut y gellid diwygio profion TB er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r goblygiadau negyddol tra'n cadw'r manteision, gan gynnwys canlyniadau economaidd a chlinigol ehangach. Wrth sgwrsio â chynrychiolwyr teuluoedd a busnesau ffermio, er enghraifft, roeddent yn cydnabod y cyfyngiadau capasiti sy'n wynebu milfeddygon a phractisau a'r risgiau y maent yn eu hachosi yn y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae yn amaethyddiaeth Cymru.

O ran atebion posibl, roedd consensws hefyd ar y rôl ehangach bosibl y gallai gweithwyr parabroffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ei chwarae wrth leddfu rhai o'r heriau tymor byr sy'n gysylltiedig â chapasiti. Pan ofynnwyd i ba raddau y gallai gweithwyr para-broffesiynol gynnal profion, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr y dylent wneud hynny'n aml iawn neu bob amser. Ar y llaw arall, roedd 22 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai milfeddygon gynnal profion yn aml iawn neu bob amser.

Ffigur 6.1: I ba raddau y dylai milfeddygon a gweithwyr para-broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol allu cynnal profion TB?




Mae tystiolaeth ehangach i gefnogi'r arsylwad hwn. Yn 2017, er enghraifft, gwnaeth Coleg Brenhinol y Milfeddygon ganfod fod lefelau uchel o gefnogaeth ymhlith milfeddygon a nyrsys milfeddygol i ddefnyddio mwy o nyrsys wrth gynnal profion TB[32]. Er nad yw'n uniongyrchol gymaradwy â defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol, mae'r data'n awgrymu bod cefnogaeth sylweddol a hirsefydlog i ddefnyddio gydweithwyr ehangach y tu hwnt i filfeddygon wrth gynnal profion TB yn y proffesiwn.

[32] The Future Role of the Veterinary Nurse: 2017 Schedule 3 Survey: A report for the Royal College of Veterinary Surgeons, Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, Hydref 2017

Yn y gwaith ymchwil hwn, roedd rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys NFU Cymru, yn cefnogi defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol. Roeddent yn teimlo y gallai gweithwyr parabroffesiynol chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan filfeddygon ddigon o gyfle ac amser i gefnogi ffermwyr yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys drwy gefnogi teuluoedd ffermio i reoli achosion o TB a llunio strategaethau ar gyfer dileu TB ar ffermydd. Roeddent yn teimlo y gellid defnyddio amser milfeddygon yn well wrth gyfathrebu â ffermwyr a'u helpu i ddeall ac ymateb i'r materion ehangach a gyflwynir gan TB, fel gwell bioddiogelwch yn ogystal â heriau iechyd a lles eraill ar ffermydd.

O ran effeithiau posibl defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol i gynnal profion, cyfeiriodd milfeddygon at ystod eang o fanteision posibl. Roedd y rhain yn cynnwys rhyddhau amser i'w neilltuo ar gyfer gwaith arall mwy ystyrlon. Roedd hyn yn cynnwys mwy o sylw i atal a rheoli achosion o TB a chymryd rhan yn y camau hynny. Fel y mynegodd un milfeddyg yn huawdl ynghylch y manteision posibl, gallai defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol:

> *'wella bywydau proffesiynol milfeddygon, gan ganiatáu iddynt ehangu ac ymarfer eu set o sgiliau; byddai'n golygu oriau gwaith mwy realistig a dibynadwy i filfeddygon ac yn gwella ein gallu i weithio mewn argyfwng a gwneud gwaith arferol; byddai'n golygu y byddai recriwtio a chadw milfeddygon yn gwella; ac yn gyffredinol byddai'r gwasanaeth y gallwn ei gynnig i'n cleientiaid a'n cleifion yn well.'*
> - Cynorthwy-ydd Cyflogedig

Er bod consensws ynghylch defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i gynnal profion, mynegwyd cafeatau a phryderon hefyd. Un ystyriaeth allweddol oedd y goblygiadau ar gyfer materion fel cydymffurfio, goruchwylio a chywirdeb y profion. Teimlwyd bod y rhain yn ystyriaethau pwysig wrth lunio polisïau dilynol. Fodd bynnag, yn y cyfarfod bord gron, nid oedd milfeddygon yn sicr ynglŷn â’r goblygiadau posibl a'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â gweithwyr para-broffesiynol mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau. Teimlai rhai y byddai'n anos i weithwyr para-broffesiynol gofnodi prawf positif, tra bod eraill yn teimlo y byddai’r pellter posibl rhwng gweithwyr parabroffesiynol a chleientiaid practis yn lleihau’r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau.

Teimlai rhai ei bod yn bwysig ystyried y lefelau o arbenigedd sy'n ofynnol gan weithwyr parabroffesiynol, sut y byddent yn cael eu hyfforddi, a phwy fyddai'n gyfrifol am achredu. Roedd rhai o'r farn bod potensial i Dechnegwyr Milfeddygol ymgymryd â'r rôl tra hefyd yn darparu gwasanaethau a chymorth ehangach a mwy rheolaidd. Ar y llaw arall, roedd pryderon ynghylch yr effeithiau posibl y byddai'r mathau hyn o rolau estynedig yn eu cael ar ragolygon swyddi a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa ymhlith milfeddygon.

Roedd pryderon hefyd ynghylch goblygiadau economaidd posibl defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol. Roedd rhai o'r farn y byddai goblygiadau o ran cost i recriwtio, hyfforddi a

goruchwylio gweithwyr para-broffesiynol, er enghraifft, ac roeddent yn awyddus i nodi na fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at arbedion costau. Roedd eraill yn pryderu efallai na fyddant yn gallu cyflogi gweithiwr para-broffesiynol heb beryglu hyfywedd swydd milfeddyg yn y tîm fferm. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos practisau annibynnol, llai. Mynegodd eraill bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol arwain at golli incwm profi yn gyfan gwbl i sefydliad mwy. Teimlwyd y pryder hwn yn gryf, gydag un ymatebydd yn nodi eu bod yn teimlo na fyddai'r practis cyffredinol yn hyfyw heb incwm profi.

Er bod llawer wedi mynegi cafeatau neu bryderon, roeddent yn tueddu i gytuno bod angen gwneud rhywbeth a bod defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol bron yn anochel. Wrth feddwl sut y gellid defnyddio gweithwyr para-broffesiynol yn eu practis, disgrifiodd rhai milfeddygon ei bod yn fater o gydbwyso'n ofalus, yn enwedig yn achos practisau llai. Roeddent yn teimlo bod y llinell yn denau rhwng cadw digon o filfeddygon i gyflawni eu cyfrifoldebau a chydnabod bod risgiau ynghlwm wrth gynnal y sefyllfa bresennol o ran cynaliadwyedd tymor hwy practisau anifeiliaid fferm — yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff.

Ar draws y rhan fwyaf o sgyrsiau, teimlwyd bod pwysigrwydd ymddiriedaeth ac ymreolaeth yn werthfawr wrth feddwl am sut y gallai practisau ddefnyddio gweithwyr para-broffesiynol. Am wahanol resymau, roedd y sbectrwm llawn o bractisau a gyfwelwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn teimlo y gallent ddefnyddio gweithwyr para-broffesiynol mewn ffyrdd gwahanol. Roedd llond llaw o bractisau yn teimlo eu bod yn rhy fach i recriwtio gweithiwr para-broffesiynol amser llawn heb oblygiadau i nifer y milfeddygon o fewn y tîm fferm. O'r safbwyntiau hyn, byddai opsiynau fel gallu defnyddio gweithwyr locwm (gweithwyr parabroffesiynol sy'n cyflawni dyletswyddau penodol am gyfnod penodol), o bosibl yn caniatáu i bractisau fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti tra'n cynnal y rotas presennol. Roedd rhai practisau mwy o faint yn teimlo bod gan weithwyr para-broffesiynol rôl fwy i'w chwarae o bosibl, gan gynnwys cynorthwyo milfeddygon gyda gwaith y tu hwnt i gynnal profion.

Yn gyffredinol, roedd llawer o filfeddygon yn teimlo bod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio mwy o weithwyr para-broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti tymor byr a heriau recriwtio a chadw staff tymor hwy yn drech na'r risgiau. Teimlwyd bod angen ystyried yn ofalus sut y mae eu defnyddio, gan gynnwys materion yn ymwneud â llywodraethu, cydymffurfio, hyfforddiant, a'r union gyfrifoldebau y gellid eu rhoi i weithwyr para-broffesiynol.

# Atodiad Technegol: Methodoleg

Wrth gynnal y gwaith ymchwil hwn, aeth yr awduron ati i gasglu a dadansoddi ystod o ddata ansoddol a meintiol sylfaenol ac eilaidd. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Mai a mis Mehefin 2022, ac roedd yn cynnwys:

## Adolygiad o'r Dystiolaeth a Mapio Data

Er mwyn seilio'r ymchwil, cynhaliwyd adolygiad manwl o'r sylfaen dystiolaeth bresennol. Roedd hyn yn cynnwys chwiliadau systematig o gronfeydd data llyfryddol a gynlluniwyd i nodi gwaith ymchwil sy'n archwilio effeithiau economaidd a chymdeithasol cynnal profion TB ar filfeddygon ac arferion.

## Arolwg Ar-lein

Er mwyn casglu barn a safbwyntiau milfeddygon a phractisau o bob rhan o Gymru, lluniwyd arolwg ar-lein. Fe'i dyluniwyd i gasglu amrywiaeth o wybodaeth ar draws meysydd amrywiol, gan gynnwys economeg cynnal profion ac effeithiau ehangach ar recriwtio, cadw a chapasiti. Lluniwyd ffrâm y sampl o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am filfeddygon a phractisau anifeiliaid fferm o bob rhan o Gymru. Dosbarthwyd dolenni i'r arolwg drwy e-bost. Yn garedig, gwnaeth Cymdeithas Milfeddygon Prydain ddosbarthu dolenni drwy eu cylchlythyr wythnosol.

Derbyniwyd cyfanswm o 55 o ymatebion, gan gynnwys milfeddygon sy'n gweithio ar draws 47 o bractisau gwahanol. Mae'r sampl wedi'i gorgynrychioli gan uwch filfeddygon, gan gynnwys cyfarwyddwyr (27.2 y cant), a chynorthwywyr cyflogedig sydd â mwy na 10 mlynedd o brofiad fel milfeddyg gweithredol (30.9 y cant). Mae hyn yn awgrymu y dylid ystyried y safbwyntiau a fynegir yn yr arolwg yn ddangosol, yn hytrach na diffiniol, o ran safbwyntiau'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd tuag at gynnal profion TB.

## Cyfweliadau Manwl

Gan ddefnyddio dull lled-strwythuredig, cynhaliwyd sgyrsiau manwl pellach. Nod y rhain oedd archwilio effeithiau cynnal profion TB yn fanylach, gan gynnwys er mwyn deall ymhellach y cyd-destun penodol sydd i gynnal y profion. Ymgysylltwyd â sampl pwrpasol o filfeddygon a oedd wedi ymateb i'r arolwg. Nod y dull hwn oedd ceisio cael ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau, gan gynnwys o ran maint, ffocws a daearyddiaeth y practisau sydd wedi'u cynrychioli yn yr ymchwil. Cynhaliwyd cyfanswm o 9 cyfweliad. Cynhaliwyd 3 chyfweliad arall gyda rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys cynrychiolwyr ffermio a Darparwyr Cyflenwi Milfeddygol.

## Cyfarfod Bord Gron

Yn olaf, cynhaliwyd cyfarfod bord gron er mwyn cyflwyno canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg yn yr ymchwil ac archwilio eu goblygiadau posibl i filfeddygon a phractisau. Yn garedig, daeth cyfanswm o 6 milfeddyg i'r sesiwn.

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com